

Ehangu'r UE a'r goblygiadau i Gymru

Adroddiad wedi ei baratoi ar gyfer

Canolfan Ewropeaidd Cymru

Richard Essex (ymgyngorydd)

Cynnwys

Rhagair 2

Cydnabyddiaethau 3

Crynodeb gweithredol 5

Pennod 1: Cyflwyniad 8

Pennod 2: Ehangu'r UE: y broses 9

Pennod 3: Ymateb Cymru hyd yma 14

Pennod 4: Y sefyllfa bresennol 21

Pennod 5: Ymateb newydd Cymru a strategaeth ar gyfer gweithredu 24

Pennod 6: Argymhellion 30

Atodiad A: Gwledydd Canol Ewrop sy'n ymgeisio – prif nodweddion 31

Atodiad B: Gwlad Pwyl – awdurdodau rhanbarthol 32

Atodiad C: Adeiledd trefniadol arfaethedig (opsiwn 1) ar gyfer ymateb

newydd Cymru 33

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith ymchwil a wnaethpwyd rhwng mis Hydref 1999 a mis Ionawr 2000, pan fu Richard Essex yn gweithredu fel ymgynghorydd i Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Mae Richard mewn sefyllfa unigryw i ymgymryd â'r gwaith hwn. Rhwng 1997 a 1999, 'roedd Richard yn cael ei gyflogi gan Awdurdod Datblygu Cymru a chafodd secondiad i Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Ymhlith ei gyfrifoldebau 'roedd sefydlu cysylltiadau â rhanbarthau Ewropeaidd eraill.

Gofynnwyd i ymgynghorydd roi cyngor ynghylch mater ehangu'r Undeb Ewropeaidd, a dyna'r argymhellion a geir yn yr adroddiad. Er nad yw'r argymhellion yn cynrychioli sefyllfa bolisi a fabwysiadwyd gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru, 'rwy'n credu y dylai cynnwys yr adroddiad hwn gael ei rannu gyda'r bartneriaeth.

'Rydym ni yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru o'r farn bod ehangu'r UE yn un o'r materion Ewropeaidd pwysicaf sy'n wynebu Cymru, yn enwedig os dewiswn bersectif sy'n edrych y tu hwnt i 2006 a diwedd y gyfres gyfredol o gyllid adeileddu. Mae'r gwaith a ddechreuwyd gan Richard yn parhau. Yn sgîl newidiadau yn ddiweddar i'r sefydliad, fe lwyddwyd i neilltuo adnoddau i ganolbwyntio ar y cwestiwn hwn. Un o gyfrifoldebau'r Tîm Rhaglenni newydd yw cysylltiadau rhwng rhanbarthau.

Fe ddaeth yn fwyfwy amlwg bod angen ymdrin yn strategol â'r cyfleoedd sy'n dod yn sgîl ehangu Ewrop. Ers llunio drafft cyntaf y papur hwn, fe fu'r gwaith o baratoi strategaeth yn mynd rhagddo. Lansiwyd ymgynghoriad ac fe fydd y tîm newydd yn parhau i weithio i gael strategaeth Tîm Cymru ar gyfer Cymru yn yr Ewrop newydd.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn gam ymlaen o ran datblygu strategaeth a fydd yn ennyn cefnogaeth y bartneriaeth gyfan.

Joseph Gallacher

Cyfarwyddwr

Canolfan Ewropeaidd Cymru

cydnabyddiaethau

Ni ellid bod wedi paratoi'r adroddiad hwn heb gymorth nifer o bobl yng Nghymru a thu hwnt. Cafwyd cyngor gwerthfawr gan staff a chydweithwyr Canolfan Ewropeaidd Cymru (WEC), yn arbennig Alexia Middleton ac Yvette Vaughan Jones. Cyn dechrau ar yr adroddiad 'roedd perthynas waith agos eisoes wedi datblygu gyda Laurie Walker, cyn Gynorthwy-ydd Ymchwil WEC, ynghylch materion yn ymwneud ag ehangu'r UE. Yn wir, mae'r adroddiad hwn yn gam rhesymegol ymlaen o gyhoeddiad ardderchog Laurie i WEC, sef Papur Rhif 5, *Moving East – What Enlargement Means for Wales*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 1999.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau anffurfiol hefyd gydag amryw o gynrychiolwyr o blith y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- y pedwar Fforwm Economaidd rhanbarthol yng Nghymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac awdurdodau lleol unigol;
- Awdurdod Datblygu Cymru (WDA);
- cwmnïau ymgynghori yng Nghymru, yn enwedig Cardiff and Vale International, ERES, a Swyddfa Asiant y Goron yng Nghymru;
- sefydliadau lleol, megis Gweithredu De Penfro dros Gymunedau Gwledig (SPARC).

Ar wahân i Bapur Rhif 5 WEC y cyfeiriwyd ato uchod, cafwyd deunydd ffynhonnell defnyddiol arall gan:

- Swyddfa Canghellor Prif Weinidog Gwladwriaeth Gwlad Pwyl (Rhagfyr 1998). *A New Poland for New Challenges*.
- Dr Susan Baker (Mehefin 1999). *Proceedings of the Joint Conference on EU Enlargement Held in Pontypool*.
- Pwyllgor y Rhanbarthau (Medi 1999). *Preparing for EU Enlargement: Devolution in the First Wave Candidate Countries*.
- Uned Efeillio FCO (Chwefror 2000). *First Annual Report on Twinning*.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol arall ar gael gan:

- Y Ganolfan Astudiaethau Polisi Ewropeaidd (1999). *Trade and Investment in Europe – The Impact of the Next Enlargement*.
- Y Ford Gron Ewropeaidd o Ddiwydianwyr (1999). *The East-West Win-Win Business Experience*. (Ar gael ar wefan DG Enlargement, Y Comisiwn Ewropeaidd).

crynodeb Gweithredol

Mae'r cynigion cyfredol ar gyfer ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn seiliedig yn gyffredinol ar gynnwys Agenda 2000 y Comisiwn, a gyhoeddwyd yn 1997. Yn y ddogfen hon, nodir bod ehangu'r UE yn un o'r prif feysydd polisi ar gyfer y cyfnod rhwng 2000 a 2006. Er 1997 mae'r Comisiwn wedi sefydlu gweithdrefnau er mwyn bwrw ymlaen â'r prosesau trafod. O ganlyniad, ymunodd hyd at 13 o aelod-wladwriaethau newydd, deg o fewn yr hen "floc Dwyreiniol" yng Nghanol Ewrop, a Chyprus, Malta a Thwrci. Oherwydd yr argyfwng gwleidyddol a dynol yng Nghosofo ddiwedd y 1990au, fe roddwyd rhagor o symbyliad i'r broses, gan arwain at wrthdaro rhwng yr angen am gyflymder a'r angen am gynnal trafodaethau o ansawdd. Mae cydbwysedd bellach yn deillio o'r sefyllfa: o ran ehangu, bydd yn rhaid sicrhau y bydd unrhyw ymuno yn digwydd wedi trafodaethau priodol, yn ôl safonau cytûn, ochr yn ochr â diwygiadau angenrheidiol i sefydliadau'r UE.

Mae tri maen prawf ar gyfer ymuno, o'r enw "meini prawf Copenhagen", sef: gwleidyddol, economaidd, a'r gallu i gwrdd â goblygiadau parhaus bod yn aelod o'r UE. Fe gafodd y broses drafod ei hagar i'r 13 gwlad ymgeisiol (GY) o fis Ionawr 2000 ymlaen. Mae egwyddor "gwahanredu" (differentiation) bellach yn gymwys. Mae hyn yn golygu y gall pob GY ddod yn aelod trwy gyflawni meini prawf Copenhagen, a thrwy fodloni'r tri phwynt angenrheidiol cyn ymuno (diwygio sefydliadau, cwblhau trafodaethau, ac amodau ariannol). At ei gilydd, y disgwyl yn gyffredinol yw y bydd nifer cyfyngedig o Wledydd

Ymgeisiol yn cael ymuno yn ystod 2003-2005, ac y bydd trafodaethau gyda rhai yn parhau ymhell i'r degawd nesaf.

Hyd yn hyn, ni bu ymateb Cymru yn arbennig o weithredol na chadarnhaol tuag at y broses ehangu na'r cyfleoedd sydd ar gael yn sgîl y broses honno. I ryw raddau, mae hyn yn ddealladwy o ystyried blaenoriaethau eraill agenda ddomestig Cymru yn ystod y tair neu bedair blynedd diwethaf. I raddau helaeth fe'i gadawyd i unigolion ymroddedig iawn yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i archwilio cyfleoedd yn rhaglenni allanol yr UE wrth i'r rhain ymddangos. Er gwaethaf y cyfleoedd cynyddol ar gyfer cyfraniad y sector cyhoeddus yn y rhaglenni mwy newydd a gysylltir ag adeiladu sefydliadau yn y Gyddy, nid yw Cymru wedi manteisio arnynt, er bod awgrymiadau yn ddiweddar bod mwy o ddiddordeb.

Er 1998, mae prif raglenni ariannu'r UE sy'n gysylltiedig â'r Gyddy wedi bod yn "cael eu gyrru gan ymuno". Mae cysylltiad annatod rhwng y cymorth rhagymuno (pre-accession) a Strategaeth Rhagymuno yr UE. Dyma'r tri phrif ddull o gyflwyno'r gefnogaeth ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 2000-2006:

- rhaglen Phare, sy'n canolbwyntio ar adeiladu sefydliadau a buddsoddiad perthnasol, tuag EWR 1.5 biliwn y flwyddyn;
- SAPARD (y rhaglen amaeth / datblygu gwledig), tuag EWR 0.5 biliwn y flwyddyn;
- ISPA (cynorthwyo gyda pholisiau adeileddol rhagymuno), tuag EWR 1 biliwn y flwyddyn.

Mae cysyniad "gefeillio" rhwng aelod-wladwriaethau a Gyddy o ran adeiladu sefydliadau yn dod o fewn Rhaglen Phare. Mae hyn wedi dod yn fwyfwy pwysig dros y 18 mis diwethaf, gyda'r DG yn cymryd rhan weithredol, a chyda chyfleoedd sylweddol i Gymru gymryd rhan yn y dyfodol.

Mae'r pedair menter newydd, mentrau Cymuned yr UE, y fframwaith newydd, fframwaith y Gymuned, a'r rhaglenni amlflwyddyn hefyd yn dod yn fwyfwy agored i'r Gyddy.

Mae'r rhaglenni Cymorth Technegol, sef y prif gyfrwng ar gyfer gweithgarwch ymgynghori â'r sector preifat, yn parhau ond gyda phwyslais cynyddol ar gystadleuaeth rhwng cwmnïau ymgynghori. Hefyd mae'n ymddangos bod mwy a mwy o ganolbwyntio ar gytundebau gwerth uwch gyda dewis mwy cyfyngedig o sectorau Contractau Fframwaith. O safbwynt y cwmnïau ymgynghori cymharol fach yng Nghymru, mae hyn yn creu hyd yn oed mwy o anawsterau o ran bod mewn sefyllfa i "arwain".

Fel rhanbarth yn Ewrop, fe fydd rhaid i Gymru wynebu'r ffaith (boed hynny'n weithredol neu'n anweithredol) ei bod yn anorfod y bydd yr UE yn parhau i ehangu. Heb os, fe fydd Cymru yn symud mwy i'r cyrion daeryddol wrth i Ewrop "symud" tua'r dwyrain, ac wrth i'r gystadleuaeth am fuddsoddi mewnol, symudol gynyddu'n fawr. Fodd bynnag, mae'r manteision posibl i Gymru yn sgîl ehangu yn fwy.

- Trwy allu dylanwadu ar adeiledd sefydliadau cyhoeddus newydd yn y Gyddy trwy raglenni wedi'u hariannu gan yr UE, mae'n bosibl cynnal dylanwad ar arferion a gweithredu ar lefelau trefol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y tymor hir. Mae arbenigedd Cymru ym maes datganioli, ad-drefnu economaidd a rheoli arian yr UE eisoes yn rhywbeth y gellir ei werthu i wledydd Canol Ewrop yn hyn o beth.
- Mae gwell cyfleoedd i fusnesau Cymru yn sgîl gwell rhyngweithio ar y lefel sefydliadol, ac ehangu'r farchnad sengl i boblogaeth lawer mwy. Rhaid meithrin ac annog y cyfleoedd hyn, er mwyn cynyddu'r manteision economaidd i Gymru i'r eithaf.
- Wrth drafod yn fwy gweithredol â Gyddy fe ellir casglu gwybodaeth unigryw, yn enwedig am newidiadau yn y perfformiad a'r arferion economaidd. Gall hyn fod o fudd i gwmnïau Cymru a rhoi rhybudd buan am heriau a chyfleoedd economaidd.
- Fe all gweithwyr yn y sector cyhoeddus gael profiad a chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'n broffesiynol trwy drefniadau secondiad tymor byr.
- Fe all Cymru sefydlu llwyfannau ar gyfer perthnasau hwy eu parhad a fydd yn fanteisiol yn fasnachol, gan gyfnewid arbenigedd, buddsoddi masnachol a dylanwadu ar benderfyniadau polisi ar lefel Ewropeaidd.

Bellach, mae'r sefyllfa hon yn galw am ymateb newydd gan Gymru, ymateb mwy cadarnhaol sy'n edrych tuag allan, er mwyn i Gymru allu symud i gyfnod newydd fel rhanbarth amlwg a gweithredol yn Ewrop. Mae angen i'r ymateb hwn fod yn seiliedig ar bartneriaeth wirioneddol rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan fanteisio i'r eithaf ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) newydd ym Mrwsel, ynghyd ag adnodd neu gatalydd pwrpasol yng Nghymru i gydlynu a bwrw ymlaen â rhaglen weithredu benodedig. Fe ddylai hyn gynnwys:

- archwilio'r broses o dargedu gweithgarwch Cymreig yng Nghanol Ewrop, yn ddaearyddol yn ogystal â fesul sector;
- cynyddu'r manteision i sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru, a chynyddu eu dylanwad, yn sgîl y gweithgarwch;
- sefydlu'r potensial ar gyfer cydweithredu rhyngwladol tymor hir, gan roi ystyriaeth i gyfleoedd lleol a rhanbarthol yn y gwledydd dan sylw.

Edrychir ar bedwar dewis sefydliadol fel sail ar gyfer bwrw ymlaen â hyn:

- Dewis 1: Ymdriniaeth partneriaeth ar y cyd gyda gweithredu integredig rhwng adnodd / catalydd pwrpasol yng Nghymru a'r WEC, yn costio hyd at uchafswm o £30,000 y

flwyddyn.

- Dewis 2: Trefniant preifat dan arweiniad ymgynghorydd, yn gysylltiedig ag egwyddor partneriaeth, gan ymgorffori'r egwyddorion a fabwysiadwyd uchod, am yr un pris yn fras.
- Dewis 3: Sefydlu tîm bychan o fewn y Cynulliad Cenedlaethol neu'r WDA am hyd at £75,000 y flwyddyn, er mwyn cydlynu ymatebion i'r cyfleoedd ariannu newydd, yn gysylltiedig â rhaglen "Efeillio" Phare ar y dechrau.
- Dewis 4: Corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd ati ar unwaith i sefydlu cwmni ar gost o tua £300,000 - £500,000 y flwyddyn, a fydd yn ad-dalu dros gyfnod o amser.

Yr argymhelliad yw mai Dewis 1 yw'r model mwyaf cost-effeithiol, integredig a mwyaf derbyniol ar hyn o bryd. Gellid ei weithredu fel prosiect peilot dros gyfnod o hyd at ddwy flynedd, petai angen. Fodd bynnag, oherwydd cyflymdra'r broses ehangu a'r gystadleuaeth am raglenni ariannu cysylltiedig, mae'n hollbwysig bod penderfyniad yn cael ei wneud ar fyrder.

argymhellion (ar ffurf crynodeb)

- Fe ddylid derbyn yr adroddiad fel sail ar gyfer sefydlu strategaeth Gymreig ar y cyd mewn ymateb i'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ehangu'r UE.
- Fe ddylid derbyn egwyddor partneriaeth fel sail dros fwrw ymlaen â'r ymateb Cymreig a gynigir.
- Fe ddylid cymeradwyo Dewis 1 yr adeileddau trefniadol.
- Fe ddylid nodi targedau daearyddol a sector-benodol y fenter hon.

Pennod 1: Cyflwyniad

Fe ddechreuwyd paratoi'r adroddiad hwn ym mis Hydref 1999. Mae'n seiliedig ar waith a gyflawnwyd o fewn y WEC a Chanolfan Fasnachol Cymru (WCC) a oedd gerllaw ym Mrwsel hyd at fis Ionawr 2000. Fe'i seilir hefyd ar brofiad Cymru a'r DG yn ddiweddar gyda rhaglenni ariannu rhagymuno, yn arbennig yng Ngwlad Pwyl.

Oherwydd y cyfnod paratoi sy'n gysylltiedig â llunio'r adroddiad, mae digwyddiadau sy'n gysylltiedig

â'r cynigion presennol i ehangu'r UE wedi parhau'n gyfochrog trwy'r sefydliadau Ewropeaidd, yr aelod-wladwriaethau a'r gwledydd ymgeisiol (GyddY). Mae barn ynghylch amseriad yr ehangu, yn gyffredinol ac o ran GY unigol, yn newid yn eithaf cyson. Felly, er gwaethaf y rhwystredigaethau sy'n cael eu mynegi gan rai GyddY ar hyn o bryd (maent o'r farn bod oedi cynyddol yn y broses), mae mwyafrif Gwledydd Canol Ewrop yn dal i ystyried mai cwestiwn "pryd" ac nid "os" yw mater ymuno.

Gyda chefnidir o'r fath, mae'r adroddiad hwn yn:

- cyflwyno "datganiad safbwynt" ar y prosesau sy'n arwain at ehangiad arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd dros y pum i ddeng mlynedd nesaf;
 - cloriannu ymateb Cymru hyd yma, i'r cyfleoedd a ddarperir gan y gwahanol raglenni ariannu sy'n gysylltiedig ag ehangu, yn enwedig o safbwynt y sector cyhoeddus;
 - rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf, o ran y cyfleoedd ariannu a chamau gweithredu cyflenwol;
 - amlinellu, er ystyriaeth, datblygiad ymateb mwy gweithredol i'r cyfleoedd, gan awgrymu strategaeth newydd ar gyfer gweithredu;
- gwneud argymhellion penodol i'w penderfynu ar frys.

Mae Agenda 2000 y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddwyd yn 1997, yn disgrifio cyfeiriadau a blaenoriaethau polisi yr UE ar gyfer y cyfnod rhwng 2000 a 2006. Mae'n nodi mai ehangu yw un o'r prif faterion dan sylw. O ganlyniad, ceisiodd y WEC osod ehangu yn uwch ar agenda'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, yr un pryd, 'roedd blaenoriaethau mawr eraill yn hawlio sylw yng Nghymru, a hynny'n ddigon priodol. Yn benodol rhoddid sylw i ddyfodol rhaglenni'r Gronfa Adeileddol, a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd statws Cronfa Adeileddol ei sicrhau ar gyfer mwyafrif Cymru am y chwe i saith mlynedd nesaf, ac fe fu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn bodolaeth ers 12 mis. Felly, o bosibl fod hwn yn gystal cyfle â'r un i ystyried safle Cymru o safbwynt un o'r blaenoriaethau polisi sy'n debygol o fod yn flaenllaw ym meddyliau sefydliadau'r UE wrth iddynt weithredu dros y degawd neu fwy nesaf.

Pennod 2: Ehangu'r UE: Y Broses

Mae'r cynnig presennol i ehangu'r UE yn cynnwys 13 o wledydd, deg o'r rhain o fewn Canol Ewrop ac yn gyn-aelodau o'r bloc Comiwnyddol (sef Gwlad Pwyl, Hwngari, y Weriniaeth Tsiecaidd, Estonia, Slofenia, Latfia, Lithwania, Slofacia, Bwlgaria a Rwmania). Y tair gwlad arall yw Cyprus, Malta a Thwrci. Fe fu'r holl wledydd hyn yn pwysu i gael rhyw fath o aelodaeth o'r UE dros nifer o

flynyddoedd.

Ar ôl nodi'r prosesau sy'n gysylltiedig ag ehangu arfaethedig yr UE a ddisgrifir yn Agenda 2000, ym mis Mawrth 1998 fe ddechreuwyd trafod ymuno yn ffurfiol gyda phum gwlad Canol Ewrop (y pump cyntaf y cyfeirir atynt uchod), a Chyprus. Dyma oedd "y wedd gyntaf" ar y pryd. Fe sefydlwyd set o weithdrefnau ar gyfer trafodaethau ymuno. 'Roedd y gweithdrefnau yn caniatáu i bob gwlad benderfynu trosti ei hunan pa mor gyflym i fwrw ymlaen. 'Roedd hynny'n awgrymu felly na fyddai'r trafodaethau gyda gwledydd y "wedd gyntaf" i gyd yn cael eu cwblhau ar yr un dyddiad o anghenraid. Ym mis Ebrill 1998, fe lansiodd y Comisiwn broses sgrinio amlochrog o'r acquis communautaire (sef deddfwriaeth a rheolau'r UE y mae'n rhaid i bob un o'r GyddY "ddynesu" atynt) gyda phob un o'r deg gwlad Canol Ewrop a Chyprus. Fe ddechreuodd sgrinio dwyochrol gyda phob un o wledydd y "wedd gyntaf" hefyd fel rhan o'r trafodaethau ymuno.

Ers hynny mae'r gwahaniaeth rhwng gwledydd y wedd "gyntaf" a'r "ail" wedd wedi cael ei ddileu, am y rhesymau a roddir isod. O fis Ionawr 2000, fe ddaeth pob un o'r deg GY o Ganol Ewrop yn rhan o'r un broses i drafod ymuno, ac mewn egwyddor fe allai unrhyw rai, neu'r cyfan, lwyddo i ymuno â'r UE o fewn yr un amserlen.

Bu'r argyfwng gwleidyddol yng Nghosofa yn symbyliad newydd dros gyflymu'r broses ymuno. Dyma brofiad a bwysleisiodd ba mor bwysig yw hi'n wleidyddol i sefydlu sail ar gyfer cael heddwch a diogelwch, democratiaeth a rheolaeth y gyfraith, a sylfeini ar gyfer gwell ffyniant a llai o anghyfartaledd economaidd a chymdeithasol ar hyd a lled Ewrop ar fyrder. Serch hynny, 'roedd rhai o'r farn hefyd na ddylid ehangu yn ddiamod a "costied a gostio". Canlyniad hyn oedd pwysau o ran cyflymder ac ansawdd yn gweithio'n groes i'w gilydd. Dan yr amgylchiadau hyn fe ddiystyriwyd un cyfaddawd posibl. Y cyfaddawd hwnnw fyddai cael cynwysoldeb ar unwaith trwy gael mwyafrif y GyddY i ymaelodi'n rhannol â'r UE dros amserlen fer. Ymdriniaeth fwy cytbwys sydd bellach yn bodoli, sef cynnig aelodaeth lawn i GyddY trwy gyfrwng proses drafod briodol ynghyd â rhaglen nawdd benodol gan yr UE.

Sialensiau ar gyfer UE mwy

Mae'r UE hefyd yn ymdrin â dau fater allweddol cysylltiedig y mae'n rhaid eu datrys ar yr un pryd â chyflawni'r ehangu.

Yn gyntaf, a phwysicaf, yr angen i ymdrin ag ad-drefnu sefydliadau'r UE. Yng Nghyngor Ewropeaidd Cologne nodwyd bod hyn yn flaenoriaeth cyn y gallai unrhyw wlad/wledydd newydd ymuno. Rhagwelir y bydd cynigion i ad-drefnu yn arwain at leihau cynrychiolaeth bresennol aelod-wladwriaethau ar lefel Comisiynwyr a Chomisiynau, ac o fewn Senedd Ewrop ac ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Heb os nac oni bai, fe fydd sgîl-ffeithiau ar Gymru fel rhanbarth yn ogystal ag ar y DG fel aelod-wladwriaeth.

Yn ail, fe fydd Undeb Ewropeaidd newydd, mwy yn gorfod ailddiffinio'r perthnasau gyda'i gymdogion. Mae hyn yn cynnwys tri grp penodol:

- gwledydd megis y Swistir a Norwy, sydd eisoes yn bodloni meini prawf aelodaeth;
- gwledydd megis Albania a gwledydd yr hen Iwgoslafia, sy'n awyddus i fod yn aelodau, ond sydd ymhell o fodloni'r meini prawf;
- gwledydd tua'r dwyrain a'r de; bydd yn hollbwysig cynnal perthnasau gwaith cytbwys gyda'r rhain. Mae Rwsia ac Wcráin yn gymdogion allweddol yn hyn o beth.

"meini prawf Copenhagen"

Mae meini prawf aelodaeth yr UE (sef "Meini prawf Copenhagen", y mae'n rhaid i bob GY eu bodloni) yn benodol ac yn cynnwys meini prawf gwleidyddol, economaidd yn ogystal â meini prawf eraill.

Mae'r meini prawf gwleidyddol yn mynnu bod Gyddy yn sicrhau "sefydlogrwydd eu sefydliadau gan warantu democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, iawnderau dynol a pharchu a diogelu lleiafrifoedd". Bernir ar hyn o bryd bod pob un o ddeg GY Canol Ewrop yn bodloni'r meini prawf gwleidyddol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn ystyried bod angen gwneud cynnydd yn y meysydd canlynol: cryfhau'r farnwriaeth; rheoli llwgrwobrwyo sy'n "rhemp"; annibyniaeth fwy parhaol i radio a theledu; a dileu rhagfarn ddofn tuag at leiafrifoedd a gwahaniaethu yn erbyn lleiafrifoedd, yn enwedig y Roma, mewn llawer o Wledydd Ymgeisiol. Mae'r sefyllfa ynghylch gofal plant yn Rwmania yn parhau i fod yn fater penodol sydd heb ei ddatrys.

Mae'r meini prawf economaidd yn mynnu bod yno economi farchnad weithredol, a thystiolaeth o'r gallu i wrthsefyll pwysau cystadleuol a grymoedd y farchnad o fewn yr UE. Wrth gloriannu gallu pob GY i fodloni'r ddau faen prawf hwn, fe edrychir ar y gweithgareddau economaidd canlynol: cyfradd twf GDP; cynnydd yn y broses breifateiddio ym mhob sector; maint y buddsoddiad uniongyrchol o dramor (FDI); cynnydd wrth integreiddio masnach gyda'r UE; ac ad-drefnu rhai sectorau diwydiannol mawr, megis dur a glo. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn o'r farn bod angen i Gyddy wneud mwy o gynnydd, a chynnydd cyflymach, o ran sefydlu fframwaith rheoleiddiol ar gyfer gweithgarwch economaidd. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen i'r UE weithredu i wella mynediad ar gyfer cynnyrch amaethyddol o Wledydd Ymgeisiol i farchnadoedd Ewropeaidd, a chyflwyno rheolau gwrthddympio'r UE gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y Gyddy.

O ran y cyntaf o'r prif feini prawf economaidd, mae gwledydd Canol Ewrop y "wedd gyntaf" a Latfia yn cael eu hystyried yn economïau marchnad gweithredol, er bod pryderon penodol ynghylch cyfradd y cynnydd yn y Weriniaeth Tsiecaidd. Mae Slofacia a Lithwania yn agos at fodloni'r maen prawf hwn, a Bwlgaria yn dechrau gwneud cynnydd sylweddol, ond mae Rwmania yn methu dangos cynnydd o sylfaen isel iawn. Mae'n anos cloriannu gallu'r gwledydd hyn i fodloni'r ail o'r prif feini prawf economaidd. Fe ddylai'r "wedd gyntaf", Latfia ac o bosibl Slofacia, allu ymdopi'n llawn â "phwysau

cystadleuol" yn y tymor canolig, er bod peth pryder unwaith eto ynghylch y Weriniaeth Tsiecaidd. Mae'n bosibl y bydd Lithwania yn llwyddo yn y tymor canolig, ond o ran Bwlgaria mae llwyddiant yn dal yn debygol o fod yn fater tymor hir er gwaethaf cynnydd yn ddiweddar. Mae Rwmania yn wynebu problemau difrifol.

Mae meini prawf aelodaeth eraill yn ymwneud â'r "gallu i ysgwyddo rhwymedigaethau aelodaeth, gan gynnwys cadw at amcanion uno gwleidyddol, economaidd ac ariannol". Y tri gweithgaredd allweddol cyntaf yn hyn o beth yw mabwysiadu'r acquis communautaire. Mae'r Comisiwn wedi'i rannu'n 31 "bennod" ar gyfer gweithgareddau sy'n benodol i wahanol sectorau. Mae mabwysiadu'r acquis communautaire yn golygu ymgorffori deddfwriaeth a rheoliadau'r UE yn rhan o ddeddfwriaeth genedlaethol, yn ogystal â sefydlu'r gallu gweinyddol a phroffesiynol i'w gweithredu a'u gorfodi. Ar hyn o bryd mae'r sefyllfa gyfreithiol yn amrywio o wlad i wlad. Estonia, Lithwania a Rwmania yn unig sydd ag angen gwneud cynnydd mwy cyson. O ran gallu gweinyddol a barnwrol, mae'n ymddangos mai Hwngari a wnaeth y cynnydd mwyaf yn gyffredinol. Mae gweddill y "wedd gyntaf" ar y blaen i'r "ail wedd", er mai cynnydd anghyson a wnaed ym mhob gwlad.

Yr Acquis: Problemau a ragwelir ar gyfer y gwledydd sy'n ymgeisio

Mae wyth prif faes lle rhagwelir problemau cyffredinol wrth fabwysiadu'r acquis. Sef:

- deddfwriaeth y farchnad fewnol (e.e. bod yn araf i fabwysiadu rheoliadau caffael cyhoeddus yn y sector cyfleustodau a chyflinio cyfraddau TAW a thollau, a'r angen i sefydlu system hollol weithredol o reoli cymorth gan y wladwriaeth);
- angen sicrhau rheolaeth ariannol effeithiol, i gyfateb i'r cynnydd a wnaed yn Hwngari a Gwlad Pwyl;
- cynnydd wrth ad-drefnu deddfwriaeth a rheoleiddio amgylcheddol;
- sicrhau safonau uwch o ran diogelwch niwclear;
- prysuro cynnydd i ddiwygio'r sector clyweled;
- sicrhau cynnydd mwy gwastad a chyson ym maes cyfiawnder a materion cartref;
- gwella cynnydd yn y sectorau cymdeithasol a iechyd;
- ar gyfer yr holl GyddY, angen dangos cynnydd sylweddol mewn ad-drefnu ym maes amaethyddiaeth. Ni roddir digon o sylw i'r ad-drefnu tymor hir sy'n angenrheidiol. Hefyd, mae angen gwella safon y cyfleusterau milfeddygol a ffytolanweithiol a buddsoddi'n sylweddol ynddynt.

Mae pob GY wedi'i halinio ei hunan â Pholisi Tramor a Diogelwch Cyffredin (CFSP) yr UE, a datryswyd y rhan fwyaf o anghydfodau ynghylch ffiniau gyda thrydedd gwledydd.

Mae Uno Economaidd ac Ariannol (EMU) yn rhan integrol o'r acquis, er y gwahaniaethir yn glir rhwng bod yn rhan o EMU, sy'n orfodol i bob aelod-wladwriaeth, a mabwysiadu'r ewro yn arian sengl, nad yw'n orfodol. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn awyddus i'r GyddY fynd ati i fabwysiadu'r arian sengl yn fuan, oherwydd fe allai hyn effeithio'n anffafriol ar sefydlogrwydd economaidd llawer o'r gwledydd sy'n mynd ati i ymuno.

Dan yr amgylchiadau presennol, mae'r UE wedi rhoi momentwm o'r newydd i'r broses ehangu trwy gynnwys 12 GY (deg gwlad o Ganol Ewrop, Cyprus a Malta) yn y broses drafod o ddechrau 2000 ymlaen. Fe ellir bwrw ymlaen i drafod gydag unrhyw Wlad Ymgeisiol sy'n bodloni'r meini prawf gwleidyddol, ond ni all y gwledydd ymuno heb fodloni holl "feini prawf Copenhagen" (sef gwleidyddol, economaidd ac arall). Fe ddechreuwyd trafod â Bwlgaria a Rwmania yn amodol ar faterion yn ymwneud â diogelwch niwclear a darparu gofal plant, yn y drefn honno.

Mae egwyddor gwahanredu yn parhau'n sylfaenol i'r broses drafod. Hynny yw, y bydd cyflymdra'r cynnydd yn dibynnu ar sefyllfa unigol pob GY. Felly, fe fydd agor (a chau dros dro) penodau unigol o'r acquis ar gyfer eu trafod yn dibynnu ar y cynnydd unigol a wneir gan bob GY, ac nid y cynnydd cyffredinol a wna pob GY. Mae'r gweithdrefnau diwygiedig yn golygu bod sail gadarnach dros bennu "dyddiadau targed" ar gyfer cwblhau trafodaethau gyda GY unigol, a gweld GY unigol yn ymuno. Mae'r Comisiwn o'r farn mai ar ôl 2002 y bydd y GyddY mwyaf datblygedig yn debygol o allu ymuno; dyna'r pryd y bydd y tri anghenraid ar gyfer ymuno yn debygol o gael eu cyflawni: sef diwygio'r sefydliadau, cwblhau trafodaethau, ac amodau ariannol.

Yn amlwg, un egwyddor sydd wrth wraidd y broses yw na ddylai ehangu'r UE olygu y bydd yr UE yn wannach. Yn sicr, bydd angen i gymeriad a natur yr Undeb newid, ond eto ni ddylai hyn gael ei ddehongli'n gyfystyr â gwanhau. Mater allweddol arall yn hyn o beth yw dirnadaeth y cyhoedd o gysyniad a realiti'r Undeb Ewropeaidd, a lefel cefnogaeth y cyhoedd iddo. Mae gan y DG brofiad hir yn hyn o beth, yn enwedig o ran sylw yn y cyfryngau a dirnadaeth y cyhoedd. Mae pryder gwirioneddol o fewn prif sefydliadau'r UE bod yn rhaid gwella a chynnal lefelau'r gefnogaeth, nid yn unig o fewn yr aelod-wladwriaethau sy'n bodoli eisoes, ond hefyd o fewn y GyddY. Canlyniad hyn fu i'r Comisiwn lansio ymgyrch gyhoeddusrwydd a gwybodaeth ym mis Mai 2000. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar fanteision ehangu ac yn ceisio disodli pryderon am ansefydlogrwydd economaidd a chymdeithasol posibl. Y bwriad yw y bydd yr ymgyrch yn cael ei hanelu at y brif bobl sy'n gwneud penderfyniadau a'r bobl sy'n llunio barn ym mhob un o'r 15 aelod-wladwriaeth bresennol a'r 13 GY.

Rhagolygon ar gyfer ymuno

At ei gilydd, y disgwyl yw y bydd nifer o Wledydd Ymgeisiol yn ymuno yn ystod 2003–2004. Ymddengys bod Hwngari a Gwlad Pwyl ar y blaen o ran gwneud cynnydd yn y trafodaethau, er bod nifer o benodau anodd o fewn yr acquis y bydd angen ymdrin â hwy'n gyflymach. Mae'n ddigon posibl

y bydd un neu ddwy o'r GyddY llai hefyd yn cyflawni hyn o fewn yr un amserlen. Gallai'r materion sy'n weddill fod yn haws eu datrys i'r gwledydd hynny, ac efallai na fyddai'r effaith gymaint wrth iddynt hwy ymuno ag y byddai i'w cymdogion mwy. Erbyn 2006–2007, mae disgwyl hefyd y bydd y cyfan o'r GyddY "gwedd gyntaf" gwreiddiol wedi llwyddo i ymuno, gyda gweddill Gwledydd y Baltig o bosibl. Dan yr amgylchiadau hyn, mae angen i Gymru sefydlu agwedd gadarnhaol tuag at ehangu, os yw'n mynd i'w chyflwyno ei hun fel un o ranbarthau blaengar Ewrop. Byddai hyn yn golygu gwneud yn fawr o'r manteision a allai ddeillio, yn ogystal â lleihau'r bygythiadau.

Pennod 3: Ymateb Cymru hyd yma

Oherwydd natur aelodaeth WEC, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar oblygiadau ehangu'r UE o ran sector cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae dau fater sy'n effeithio ar berfformiad sector cyhoeddus Cymru yn y maes hwn.

Yn gyntaf, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ffiniau rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wedi troi'n gynyddol aneglur. Mae llawer o integreiddio a rhyngddibyniaeth rhwng y sectorau hyn wrth fwrw ymlaen â datblygiadau economaidd, materion polisi cymdeithasol a gweithgareddau amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r un sefyllfa yn wir am y camau sy'n perthyn i'r prosesau yn gysylltiedig ag ehangu'r UE. Er enghraifft, tra bo modd targedu rhai ffynonellau ariannu tuag at unrhyw rai o'r tri sector, mae cyfleoedd cynyddol, yn wir pwysau, o du asiantaethau ariannu, dros berthnasau gwaith agosach. Mae'n ymddangos bod pwysau arbennig ar y cyrff cyhoeddus ac ymgynghorwyr sector preifat i fynd ati i gydlynu eu gweithgareddau o leiaf, os nad cydweithio, ar brosiectau ategol yn ogystal â phrosiectau buddsoddi a rhaglenni cynghori a hyfforddi.

Yn ail. i amddiffyn perfformiad Cymru hyd yma, y mae nifer o ffactorau sy'n perthyn i'w gilydd sydd wedi gweithio'n erbyn ymateb mwy gweithredol a chadarnhaol i'r cyfleoedd a fu ar gael dros y pum mlynedd neu fwy diwethaf. O ran y sector cyhoeddus, mae'r rhain yn cynnwys:

- cystadleuaeth gan flaenoriaethau gwaith tra phwysig eraill, megis sicrhau statws rhaglen Cronfa Adeileddol yr UE ar gyfer Cymru yn y dyfodol, a sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol;
- cyfyngiadau difrifol o ran staff ac adnoddau ariannol, wrth i rai rhannau o'r sector cyhoeddus weld ad-drefnu adeileddol, a chrebachu;
- ansicrwydd ynghyd goblygiadau ariannol symud i'r maes gweithgarwch hwn, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch y manteision a allai ddeillio;
- diffyg arweiniad na neb mewn gwirionedd i "ganu clodydd" o fewn Cymru er mwyn datblygu "safiad Cymreig" tuag at ehangu'r UE.

O ganlyniad, bu'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch a welwyd yn y sector cyhoeddus yn ddibynnol yn gyffredinol ar frwdfrydedd ac ymrwymiad / diddordeb personol swyddogion / gweithwyr cyflogedig unigol.

O ran y sector preifat, er i rai cwmnïau ymgynghorol penodol wneud ymrwymïadau mawr, fe fu cyfyngiadau ar weithgarwch, yn bennaf oherwydd y canlynol.

- Natur gymharol fach cwmnïau ymgynghorol brodorol yng Nghymru, gan gyfyngu ar allu'r cwmnïau hynny i arwain y broses o gyflwyno cytundebau, yn enwedig y cytundebau mawr.
- Y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â rhaglenni'r UE a rhaglenni ariannu eraill yn ymwneud â Gwledydd Canol a Dwyrain Ewrop (Gwledydd CDE), yn enwedig o ran taliadau / llif arian a chyfraddau ffioedd. Mae'r problemau hyn yn achosi risg cymharol uchel i gwmnïau bychain.
- Cyfyngiad ar allu gweithredol (capacity constraint) o fewn y sector preifat yng Nghymru, o ran darparu gwasanaethau ymgynghorol neu o ran gweithredu prosiectau buddsoddi yn ymwneud â seilwaith.
- Diffyg cyfleusterau cefnogi i allu manteisio ar y cyfleoedd ariannu, yn enwedig ar gyfer cwmnïau bach. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod Canolfan Fasnachol Cymru wedi bod yn gweithio ym Mrwsel dros y sector preifat yng Nghymru, y prif fwch fu diffyg cyfleuster cefnogi o ryw fath o fewn Cymru.

Dan yr amgylchiadau hyn, ysbeidiol, cymedrol a digon di-drefn fu ymateb Cymru i'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhaglenni'r UE a rhaglenni cyfrannu eraill yng Ngwledydd CDE dros y degawd neu fwy diwethaf. Fel y nodir uchod, yn gyffredinol fe fu'r gweithredu'n ddibynnol ar fenter unigolion, neu grwpiau bach o unigolion, o fewn y sector cyhoeddus, ymgynghoriaethau yn y sector preifat neu gyrff yn y sector gwirfoddol. Fe fu'r rhain yn unigolion cryf eu cymhelliad, a ddatblygodd lawer iawn o arbenigedd mewn meysydd penodol. Fe allai hyn fod yn sail ar gyfer mwy o gydweithredu yn y dyfodol petai modd sicrhau mwy o ymrwymiad.

Y prif ffynonellau ariannu fu'n cefnogi gweithgareddau yn y GyddY, a gweddill Gwledydd CDE, yw'r rhain yn bennaf: Rhaglen Phare yr UE (Canol Ewrop); rhaglen Tacis yr UE (Dwyrain Ewrop – Taleithiau Annibynnol Newydd yr hen Undeb Sofietaidd); a chronfeydd cyfrannu eraill, a ddarparwyd yn uniongyrchol trwy lywodraeth y DG (*British Know-How Fund*; a chronfeydd DfID) neu sefydliadau ariannol pwysig eraill, megis Banc y Byd neu Fanc Buddsoddi Ewrop, ac yn y blaen.

Mae'r prosesau a gysylltir ag ehangu arfaethedig yr UE wedi rhoi mwy o gyfleoedd i bob sector chwarae rhan fwy, ac o bosibl gael mwy o fudd, o raglenni penodol yr UE a grëwyd i gefnogi'r GyddY. Fodd

bynag, nid yw'n ymddangos bod y sefyllfa hon wedi gwella perfformiad Cymru yn fawr yn y maes hwn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, er gwaethaf y ffaith fod mwy o gyfleoedd yn y meysydd hyn:

- Adeiladu sefydliadau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn bennaf o fewn y GyddY, ond hefyd o fewn Gwledydd eraill CDE.
- Cymorth technegol mewn amryfal sectorau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sefydlu economi farchnad rydd, y seilwaith cyhoeddus a phreifat sy'n angenrheidiol i gefnogi'r trawsnewid hwn a sicrhau cydlynid economaidd a chymdeithasol. Mae hyn yn galw am arbenigedd a buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a hefyd gan y sector preifat.
- Y cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau masnachu, a manteisio ar ehangu marchnadoedd allforio yn ogystal â chreu mentrau ar y cyd.

Ymdrin â'r gwledydd sy'n ymgeisio

Nid oes llawer o wybodaeth ar gael ynghylch ymwneud â'r GyddY, na gweddill Gwledydd CDE, yn y gorffennol na'r presennol. Fe fyddai angen llawer o amser i wneud archwiliad llawn o hyd a lled y cysylltiadau rhwng sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru a'r GyddY a Gwledydd CDE sy'n weddill. Ar hyn o bryd, felly, fe fuom yn ddethol. Mae'n seiliedig ar gyswllt â rhai o brif sefydliadau Cymru, a hefyd â'r unigolion a'r sefydliadau hynny a fu'n arbennig o weithredol yn y gorffennol, neu a ddangosodd ddiddordeb brwd mewn cyfleoedd a fydd ar gael yn y dyfodol. Mae hyn yn rhoi darlun eithaf cydlynol o'r perfformiad yn y gorffennol ac yn ddiweddar. Mae Papur Rhif 5 yr WEC, *Moving East*, yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am gyfraniad Cymru yn y gorffennol tuag at raglenni ehangu'r UE. Fe gomisiynodd y WDA o leiaf bedwar adroddiad ymgynghorol dros y tair neu bedair blynedd diwethaf, er mwyn rhoi cipolwg ar weithgarwch yng Ngwledydd CDE, a dirnadaeth y cyhoedd ohonynt ac ehangiad arfaethedig yr UE. Yn dilyn drafft cyntaf yr adroddiad hwn, fe gynhaliwyd arolwg ar ffurf holiadur gan y WEC yn gysylltiedig ag ehangu'r UE.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, nid oedd yn ymddangos bod yr hen Swyddfa Gymreig yn rhoi unrhyw flaenoriaeth arbennig i sefydlu perthnasau â Gwledydd CDE ac mae'n ymddangos i'r gweithgarwch gael ei gyfyngu i genadaethau masnach. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dangos mwy o ddiddordeb ym mhosiibiliadau ymdriniaeth fwy gweithredol, o bosibl oherwydd y canlynol:

- bod ehangu'r UE wedi symud yn uwch i fyny ar yr agenda Ewropeaidd, wedi i nifer o faterion gael eu datrys yn gysylltiedig â chymeradwyaeth y Comisiwn i raglenni newydd y Gronfa Adeileddol 2000-2006;
- diffyg llwyr ym mherfformiad Cymru trwy'r Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad Cenedlaethol o gymharu ag adrannau eraill llywodraeth y DG a gweinyddiaethau

rhanbarthol o fewn y DG o ran tair rownd gyntaf y rhaglenni "Gefeillio" newydd dan Phare;

- potensial cael cydweithredu ar lefel gwledydd a rhanbarthau, yn y tymor canolig i dymor hir, gyda rhanbarthau eraill o fewn yr UE, y Gyddy a Gwledydd eraill CDE;
- y bygythiadau ymddangosiadol yn sgîl ehangu, yn hytrach na'r cyfleoedd posibl.

Awdurdod Datblygu Cymru

Braidd yn anghyson fu agwedd y WDA tuag at Wledydd CDE, yn gymaint â bod unrhyw weithgarwch fel petai'n ddibynnol ar fenter swyddogion unigol ar lefel rheolwyr canol. Ni fu unrhyw bolisi amlwg gan y WDA mewn perthynas â Chanol a Dwyrain Ewrop, na neb i "ganu clodydd" ar lefel Bwrdd neu Uwch Weithredwr. Yn wir, hyd yn ddiweddar fe fu agweddau'r Awdurdod ar lefel uwch yn hynod negyddol tuag at unrhyw ymwneud sylweddol â materion ehangu. Sail hyn oedd y gred y byddai gweithredu o'r fath yn peri i Gymru ddatgelu "cyfrinachau ei llwyddiant economaidd". Fodd bynnag, dros y misoedd diwethaf, mae'n ymddangos bod agweddau wedi lliniaru ryw ychydig. Bellach rhoddir ystyriaeth i gynnwys staff y WDA o fewn ceisiadau ar gyfer cytundebau rhaglen Phare. Hefyd, mae dogfen y WDA, *A Briefing* (1999), yn datgan hyn o fewn swyddogaeth Polisi Strategol yr Awdurdod: "mewn perthynas ag Ewrop, mae'n helpu i sicrhau bod y gorau yn cael ei wneud o gyfleoedd yng Nghanol a Dwyrain Ewrop yn sgîl ehangu'r UE".

Adroddiad Ymgynghorol ERES i Awdurdod Datblygu Cymru

Deallir mai'r adroddiad mwyaf diweddar i'r WDA sy'n ymdrin â Gwledydd CDE ac ehangu'r UE yw'r un a baratowyd gan yr ymgynghorwyr datblygiad economaidd yng Nghaerdydd, ERES. Er mai teitl yr adroddiad yw *Opportunities for Welsh SMEs in Central and Eastern Europe* (Mawrth 1999), mae'r adroddiad yn briodol iawn yn mynd i'r afael â materion o natur ehangach mewn perthynas ag "ymateb Cymreig". I grynhoi, mae'n cadarnhau y creir mwy a mwy o gyfleoedd masnachol yng Ngwledydd CDE, yn enwedig yn y Gyddy. Er bod Cymru ar y cyrion yn ddaearyddol, mae'r adroddiad yn awgrymu na all Cymru anwybyddu'r amgylchiadau newydd a grëir gan ehangiad arfaethedig yr UE. Canmolir y cwmnïau Cymreig a ddatblygodd gysylltiadau masnach (nifer gymharol gyfyngedig ohonynt sydd). Hefyd, mae cyfoeth o fedrau yn bodoli yng Nghymru sy'n berthnasol i'r gwledydd hynny sy'n awyddus i sefydlu adeileddau sefydliadol democratig ac economïau marchnad rydd. Mae'r cyfoeth medrau hyn yn rhoi cyfle arbennig i sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar:

- natur newidiol rhaglenni ariannu'r UE yn sgîl ehangu, a pherthnasedd profiad Cymru i ofynion y rhaglen;
- cloriannu arbenigedd sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru;
- yr angen i "frandio" a chyfnerthu ymdrechion Cymru i ennill mwy o fusnes a dylanwad;

· yr adeileddau trefniadol a fabwysiadwyd gan ranbarthau eraill o fewn yr UE i gael rhagor o ddylanwad.

Fe edrychwyd ar nifer o ddewisiadau, er mwyn sefydlu "model trefniadol Cymreig" a allai wella'r perfformiad. 'Roedd yr adroddiad yn argymhell y gallai'r WDA sefydlu cwmni, sef is-gwmni a fyddai'n eiddo'n llwyr i'r WDA, i arwain mentrau sector preifat a chyhoeddus Cymreig yng Ngwledydd CDE. At ei gilydd, rhagwelid y byddai ar y cwmni angen lefel o gymhorthdal cyhoeddus am gyfnod o oddeutu tair neu bedair blynedd, ac ar ôl hynny y byddai'n debygol iawn y byddai'r cwmni yn gwneud elw. Y casgliad oedd fod angen gwneud penderfyniadau cyflym i sefydlu menter o'r fath yng Nghymru, gan fod cyfleoedd newydd yn codi'n fuan ac aml, ac o ystyried pa mor gyflym 'roedd cynifer o ranbarthau blaengar a chystadleuol yn y DG ac aelod-wladwriaethau yr UE yn manteisio ar yr un cyfleoedd. Fe fyddai'n ymddangos bod y diffyg ymateb ymddangosiadol i gasgliadau'r adroddiad yn adlewyrchu agwedd y WDA tuag at y mater bryd hynny.

Ymwneud y sector cyhoeddus / sy'n derbyn arian cyhoeddus â'r gwledydd sy'n ymgeisio

Fe fu awdurdodau ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus yn ymwneud i wahanol raddau â rhaglenni gan yr UE yn gysylltiedig â'r gwledydd sy'n dymuno ymuno â Gwledydd CDE. Gyda materion amgylcheddol, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi datblygu cysylltiadau rhyngranbarthol. Mae awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, yn enwedig PC Bannau Brycheiniog, hefyd wedi bod yn rhan o fentrau "cyfnewid profiadau" gyda sefydliadau cyfatebol yn Ewrop.

Mae awdurdodau lleol wedi tueddu i sefydlu trefniadau gefeillio confensiynol gydag awdurdodau tebyg o fewn aelod-wladwriaethau'r UE. Mae yna nifer gyfyngedig o drefniadau gefeillio confensiynol gydag awdurdodau lleol yng Ngwledydd CDE, yn fwyaf amlwg Caerffili gyda Pisek (y Weriniaeth Tsiecaidd), Caerdydd gyda Lugansk (Wcráin), Castell-nedd / Aberafan gyda Velenje (Slofenia), Casnewydd gyda Kurtalsi (Georgia), Sir Benfro gyda Uman (Wcráin), a Phowys gyda Krumlov (y Weriniaeth Tsiecaidd). Fe ddylid nodi nad oes cysylltiad mewn gwirionedd rhwng gefeillio fel hyn â'r prosiectau gefeillio newydd a ariennir trwy raglen Phare. Trefniadau eithaf cymedrol rhwng bwrdeistrefi yw'r math cyntaf fel arfer, yn canolbwyntio ar gyfnewid diwylliannol, addysgol a chymdeithasol. Maent yn werthfawr iawn o ran meithrin dealltwriaeth ar draws ffiniau cenedlaethol a gwleidyddol, ond yn wahanol iawn i'r prif brosiectau ariannu sy'n targedu newid sefydliadol, economaidd a chymdeithasol.

Hefyd, bu adrannau awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol raglenni cyfrannu i ariannu prosiectau o'r math "darparu'r arferion gorau". Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi defnyddio Ecos-Ouverture yr UE a rhaglenni Interreg II yn effeithiol i sicrhau partneriaid rhyngranbarthol a lleol o fewn yr aelod-wladwriaethau presennol a'r Gyddy. Mae awdurdodau lleol eraill yn Ne-ddwyrain, De-orllewin, Canolbarth a Gogledd Cymru wedi troedio llwybrau tebyg gan lwyddo i wahanol raddau.

Mae sefydliadau a sefydlwyd yng Nghymru o ganlyniad i fentrau penodol dan raglenni'r UE hefyd wedi meithrin cysylltiadau â Gwledydd CDE er mwyn cyfnewid profiadau a rhoi modelau o arferion da.

Mae'r Grp Leader, Gweithredu De Sir Benfro dros Gymunedau Gwledig (SPARC), er enghraifft, wedi meithrin cysylltiadau â Slofacia, Hwngari a Gwledydd y Baltig.

Mae'r sector mwy cyffredinol sy'n derbyn arian cyhoeddus wedi meithrin cysylltiadau â Gwledydd CDE, yn bennaf trwy sefydlu "adrannau masnachol" sy'n gysylltiedig â meysydd arbenigedd y prif gorff. Dyma rai enghreifftiau.

- Mae Asiantaethau Menter Cymru wedi meithrin cysylltiadau ledled Ewrop, a chystadlu am gytundebau'r UE a chytundebau eraill ledled y byd. Fe fu Cardiff and Vale Enterprise International Cyf, er enghraifft, yn hynod weithgar yng Ngwledydd CDE gyda chymorth cronfeydd Phare, Tacis, *UK Know-How*, Cymdeithas Datblygu Tramor a DfID er 1992. Fe fuont yn ymwneud â thros 30 cytundeb yn y Weriniaeth Tsiecaidd, Gwlad Pwyl, Hwngari, Estonia, Lithwania, Wcráin, Ffederasiwn Rwsia, Azerbaijan, Belarws, Mongolia, Georgia, Casacstán, a Moldofa. Bu'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar fenter a datblygu Mentrau Bychan a Chanolig (SME), sef prif arbenigedd y corff gwreiddiol.

- Mae adrannau prifysgolion yng Nghymru wedi datblygu mewn ffordd debyg. Er enghraifft, ym Mhrifysgol Cymru Bangor, mae'r Ganolfan Astudio Tiroedd Cras yn ogystal ag Infinet (Ysgol Gyfrifeg, Economeg a Hyfforddiant) wedi bod yn weithgar yng Ngwledydd CDE.

- Mae Gwasanaeth Ymgynghori a Datblygu Amaeth (ADAS) y DG wedi defnyddio rhaglen Phare a DfID ar hyd a lled Gwledydd CDE, gan ddarparu cyngor a hyfforddiant.

Ymwneud y sector preifat â'r gwledydd sy'n ymgeisio

Mae sector preifat bychan, ond gweithredol iawn yng Nghymru wedi meithrin cysylltiadau ac arbenigedd yng Ngwledydd CDE, trwy ymwneud masnachol â rhaglenni'r UE a rhaglenni eraill wedi'u noddi gan gyfranwyr. Oherwydd natur fasnachol y gwaith, ni fu'r sector yn canolbwyntio'n benodol ar Wledydd CDE. Mae llawer o'r ymgynghorwyr (sef busnesau bach neu unigolion yn bennaf) yn gweithio dan gyfarwyddyd i werthu arbenigedd a gwasanaethau yn fyd-eang. Wedi dweud hynny, gan fod mwy a mwy o arian rhagymuno yr UE yn cael ei dargedu at y GyddY, mae mwy o gyfleoedd i lunio cytundebau yn dod ar gael yn y maes hwn. Ymhlith yr enghreifftiau o gwmnïau ymgynghorol o'r fath, sy'n tueddu i weithio mewn meysydd arbenigol, y mae ERES (datblygiad economaidd), PB Kennedy and Donkin (peirianeg a'r amgylchedd), Richards Moorehead and Laing (peirianeg, adfer tir a gwella'r amgylchedd), a Swyddfa Cymru Asiantiaid y Goron (datblygu menter). Mae yna gwmnïau mwy gydag adrannau ymgynghorol, sy'n cynnig am brosiectau cymorth technegol a buddsoddi mewn seilwaith. Y mwyaf amlwg yng Nghymru yw Hyder. Er bod cwmni arall wedi cynnig prynu'r cwmni presennol yn ddiweddar, mae'r adran ymgynghorol yn debygol o barhau i weithredu. Fe gyflawnwyd llawer o waith yng Ngwledydd CDE, o ran cymorth technegol (cyngor arbenigol ar amrywiaeth eang o

bynciau), ac ar weithredu prosiectau seilwaith cyfalaf sylweddol (cyfleustodau a chludiant, ac yn y blaen).

Mae tystiolaeth bod gan gwmnïau unigol o Gymru ddiddordeb cynyddol mewn sicrhau cysylltiadau masnachu yng Ngwledydd CDE. Dyma ddwy enghraifft:

- Newbridge Networks, Casnewydd, sydd wedi llwyddo i gael troedle ym marchnad delegyfathrebu gynyddol Canol Ewrop, a gwerthu cynnyrch eraill;
- Mono Equipment, Abertawe, sydd wedi cyflenwi offer pobi arbenigol i nifer o Wledydd CDE. 'Roedd Rwsia yn farchnad hanfodol ar adeg pan oedd y cwmni'n arallgyfeirio o fod yn fecws adwerthol confensiynol i gynhyrchu a chyflenwi offer pobi dibynadwy o ansawdd uchel.

Mae llawer mwy o gwmnïau wedi llwyddo i dreiddio i farchnadoedd yng Ngwledydd CDE. Fodd bynnag, fe fydd ehangu'r UE yn cynyddu'r cyfleoedd yn sylweddol i fusnesau Cymru.

Casgliadau: yr ymateb hyd yma

Gan gydnabod y cyfyngiadau gwirioneddol a wynebai'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, mae'n amlwg mai siomedig fu lefel y perfformiad o ystyried y cyfleoedd a grëwyd yn y cyfnod rhagymuno yn arwain at ehangu'r UE. Mae'n arbennig o siomedig o'i gymharu â pherfformiad cyrff yn y sector cyhoeddus, lled gyhoeddus a phreifat yn y DG ac yn rhanbarthau eraill yr UE. O gofio am yr hwb newydd sy'n cael ei roi i'r broses ehangu a'i chanlyniad anorfod maes o law, mae'n debyg bod gan Gymru un cyfle olaf i ailgloriannu ei safle o ran yr UE mwy a ddaw yn sgîl yr ehangu.

Pennod 4: y sefyllfa bresennol

Mae'r rhaglenni ariannu sydd gan yr UE i gefnogi'r broses ehangu wedi cael eu hailgyfeirio dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Cyn hynny, 'roedd y brif raglen ariannu ar gyfer gwledydd Canol Ewrop, sef Phare, yn cael ei gyrru i raddau helaeth gan y galw o du'r gwledydd oedd yn derbyn yr arian. Ar ôl cyhoeddi Agenda 2000, ymuno oedd yr unig symbyliad i raglen Phare.

Mae'r cymorth rhagymuno yn cyd-fynd â Strategaeth Rhagymuno'r EU a gweithdrefnau cysylltiol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn yr adroddiad hwn. Mae'r cymorth yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng tair rhaglen gyllido benodol, sef:

· Rhaglen Phare.

Amcan cyffredinol Rhaglen Phare 2000-2006 yw helpu GyddY i baratoi i ymuno â'r UE. Er mwyn cyflawni hyn, fe fydd cymorth Phare yn cael ei sianelu tuag at y meysydd blaenoriaeth a nodir yn y Partneriaethau Ymuno a sefydlwyd ar gyfer pob GY. Mae'r Fframwaith Partneriaeth Ymuno yn rhoi sylw i'r holl gyfnod rhagymuno, a thrwy hynny'n darparu fframwaith ar gyfer rhaglennu cymorth i bob GY dros nifer o flynyddoedd.

Cafodd cyllideb flynyddol o EWR 1.5 biliwn (yn ôl prisiau 1997) ei chymeradwyo ar gyfer y cyfnod 2000-2006.

Dwy brif flaenoriaeth Phare yn ystod y cyfnod hwn fydd "adeiladu sefydliadau" a "Buddsoddi". Fe fydd elfen adeiladu sefydliadau'r rhaglen yn derbyn tua 30% o gyfanswm cyllideb Phare, er y gallai hyn amrywio yn ôl y Wlad Ymgeisiol unigol. Fe fydd yn helpu'r GyddY i weithredu'r *acquis communautaire* a chyflawni gofynion meini prawf gwleidyddol Copenhagen ar gyfer ymuno. Y prif ddull o weithredu'r elfen adeiladu sefydliadau yw trwy'r broses efeillio. Trwy'r gefeillio sefydlwyd cysylltiadau gweithio dwysach rhwng swyddogion ac ymarferwyr o aelod-wladwriaethau a'r GyddY, ac fe fydd trefniadau rhyngweithio o'r fath yn parhau i gael eu sefydlu. Yn ystod 1998 a 1999 gwelwyd y blaenoriaethau o ran gweithredu o fewn sectorau amaeth, yr amgylchedd, cyllid, a chyfiawnder a materion cartref; mae hyn bellach yn y broses o gael ei estyn i sectorau eraill. Fe fydd elfen fuddsoddi'r rhaglen yn derbyn tua 70% o gyfanswm y gyllideb. Mae'n cael ei chyfeirio at ddau faes gweithgarwch: yn gyntaf, tuag at fuddsoddi i gryfhau'r seilwaith rheoleiddio sy'n angenrheidiol i sicrhau y bodlonir normau a safonau (*acquis*) yr UE; ac yn ail, tuag at fuddsoddi mewn cydlynad economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys effeithiau ad-drefnu mewn sectorau pwysig yn yr economi.

· Rhaglen Ymuno Arbennig ar gyfer Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (SAPARD).

Amcan cyffredinol SAPARD 2000-2006 yw cynorthwyo GyddY i ymdrin â phroblemau ymaddasu adeileddol yn y sectorau amaethyddol ac mewn datblygu ardaloedd gwledig. Hefyd, mae'n cynorthwyo i weithredu'r *acquis* mewn perthynas â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) a deddfwriaeth gysylltiol yr UE.

Cafodd cyllideb flynyddol o EWR 520 miliwn (yn ôl prisiau 1999) ei chymeradwyo ar gyfer cyfnod y rhaglen.

· Offeryn Polisiâu Adeileddol ar gyfer Rhagymuno (ISPA).

Amcan cyffredinol ISPA 2000-2006 yw cynorthwyo GyddY i alinio prif seilweithiau cludiant a'r amgylchedd â safonau'r Gymuned. Yn y cyd-destun hwn, mae ISPA yn ddigon tebyg i'r Gronfa Gydlynad, sydd ar gael i rai o'r aelod-wladwriaethau presennol.

Cafodd cyllideb flynyddol o EWR 1,040 miliwn (yn ôl prisiau 1999) ei chymeradwyo ar gyfer cyfnod y rhaglen, i'w rhannu'n gyfartal rhwng sectorau cludiant a'r amgylchedd.

Prif flaenoriaethau'r rhaglenni yw gwneud polisiau a gweithdrefnau'r UE ym meysydd cludiant a'r amgylchedd yn fwy cyfarwydd, ehangu a chysylltu â'r rhwydwaith cludiant traws-Ewropeaidd, a helpu Gyddy i gyrraedd safonau amgylcheddol yr UE.

Fe fydd pedair Menter Gymunedol newydd yr UE 2000-2006 (Interreg III, Leader+, Urban ac Equal) yn dod ar gael i'r Gyddy trwy gyfrwng proses rhannu arferion gorau a chyfnewid profiadau. Cafodd rhaglenni Cymunedol presennol eraill yr UE eu hagog i'r Gyddy fel rhan o'r pwyslais cynyddol ar gydweithredu rhyngwladol a rhynggranbarthol. Mae Atodiad A yn amlinellu'r sefyllfa bresennol yn hyn o beth. Fe fydd y fframwaith Cymunedol a'r rhaglenni amlflwyddyn newydd (e.e. 5ed Fframwaith – RandTD, Diwylliant 2000, Strategaethau Rhanbarthol Arloesi a Throsoglwyddo Technoleg (RITTS), ac ati) ar gael i'r Gyddy.

Yn nhermau cyfleoedd penodol ar gyfer ymgynghorwyr sector preifat, bugweithdrefnau ar gyfer cytundebau ar gael ers nifer o flynyddoedd ac wedi hen ymsefydlu. Maent i'w cael ar gyfer Phare, Tacis a rhai o raglenni allanol eraill yr UE. Er 1996, mae cytundebau llai o fewn rhaglen Phare yn cael eu gweinyddu trwy Gontractau Fframwaith (FWC) ar gyfer 13 o weithgareddau sector-benodol (e.e. amaethyddiaeth, yr amgylchedd, technoleg gwybodaeth, SME a datblygu rhanbarthol, ac yn y blaen). Ar hyn o bryd mae'n fwriad uno rhai o'r 13 sector i greu llai o sectorau, a phenodi hyd at dri Chontractwr Fframwaith ar gyfer pob sector gweithgarwch newydd. Hefyd, mae'n bosibl y bydd y FWC yn cael eu hestyn i gwmpasu mwyafrif neu holl raglenni allanol yr UE. O ganlyniad i hyn fe fyddai'r FWC yn tyfu a dod hyd yn oed yn fwy cystadleuol, gan olygu mae'n debyg na allai neb ond yr ymgynghorwyr rhyngwladol mwyaf gystadlu ar y lefel hon.

Cyfranogiad y DG yn rhaglenni rhagymuno yr UE

Ar lefel aelod-wladwriaeth, yr Uned Efeillio o fewn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad fu'n ymdrin yn bennaf â'r rhaglenni rhagymuno sy'n gysylltiedig â'r broses ehangu. Erbyn diwedd 1999, 'roedd dwy "gyfres" o brosiectau gefeillio wedi digwydd yn 1998 ac un "gyfres" yn 1999. 'Roedd perfformiad y DG yng nghyfes 1 (1998) yn eithaf bach, o'i gymharu ag aelod-wladwriaethau eraill o faint cymharol. Llwyddodd yr Almaen i gymryd rhan mewn 53 prosiect, Ffrainc 33 a'r DG 12. Yn wir, bu cydnabyddiaeth bod y DG braidd yn araf yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a godai. Fe fu'r ail gyfres yn 1998 yn fwy llwyddiannus i'r DG, gydag 16 o brosiectau, o'u cymharu â 14 i Ffrainc ac 11 i'r Almaen. Yn ystod 1999, cafodd y DG gymeradwyaeth i dri phrosiect arall, gyda thros 30 o geisiadau yng nghyfes 1999 yn aros i'w hystyried. Erbyn diwedd 1999, felly, fe gymeradwywyd 31 o brosiectau gefeillio y DG, gyda 21 Ymgynghorydd Rhagymuno ar secondiad i Weinyddiaethau yn y Gyddy neu'n paratoi cyfamodau gefeillio. 'Roedd cynrychiolaeth o'r DG mewn wyth GY.

Fel y gellid disgwyl, 'roedd cynrychiolaeth y DG o fewn y prosiectau gefeillio yn cael ei hariannu i

raddau helaeth gan brif adrannau'r llywodraeth ganolog (e.e. DTI, MAFF, y Swyddfa Gartref, y Trysorlys, DETR, ac ati). Fodd bynnag, yn ystod 1998/99, fe gyflwynodd Adran Ddatblygu Llywodraeth yr Alban ac Adran Datblygu Economaidd Gogledd Iwerddon (NICO) gynigion ar gyfer gefeillio, gan gyrraedd y rhestr fer, a derbyn cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau gefeillio. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol (a chyn hynny, y Swyddfa Gymreig) wedi cyflwyno cais hyd yma ar gyfer prosiect gefeillio. Fel y cyfeirir rywle arall yn yr adroddiad hwn, fe fu rhesymau dilys dros lefel y perfformiad, ond mae angen adolygu'r sefyllfa ar fyrder eithaf.

O ran prosiectau gefeillio, fe fu newid sylweddol yn y rheolau ynghylch y darpar bartneriaid sy'n gymwys i efeillio ers mis Chwefror 2000. Gynt, 'roedd diffiniadau caeth yn nodi pwy gâi fod yn aelod o dîm y prosiect o bob aelod-wladwriaeth. Yn gyffredinol mae'r DG wedi dilyn y cyfarwyddyd a chynnig gweision sifil yn arweinwyr ac aelodau o'r timau gefeillio. Mae peth tystiolaeth na fu aelod-wladwriaethau eraill lawn mor gydwybodol o ran cyfansoddiad eu timau gefeillio. Yn y "Llawlyfr Gefeillio" diweddaraf i'w gyhoeddi gan y Comisiwn (15 Chwefror 2000) mae'r polisi tuag at gyfansoddiad y tîm i'w weld yn fwy hyblyg, gyda phob lefel o weinyddiaeth gyhoeddus gymwys (genedlaethol, ranbarthol a lleol) yn addas i'w chynnwys, a chyrrff anweinyddol yn dderbyniol i'w hystyried, os gallant fodloni rhai meini prawf. Mae hyn yn amlwg yn ehangu'r cyfleoedd i Gymru.

Cyfleoedd y tu hwnt i raglenni'r UE

Mae cyfleoedd i Gymru a'r GyddY gydweithredu yn bodoli y tu hwnt i'r rhaglenni ffurfiol a amlinellir uchod. Mae yna unigolion o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio yng Ngwledydd Ymgeisiol Canol Ewrop, trwy fentrau a ariennir gan yr UE neu fel arall. Maent yn anochel o'r farn bod galw eang am fanteision y "profiad Cymreig" ar hyd a lled y gwledydd hyn. Mae llawer o geisiadau am waith cydweithredol yn mynd heb eu hateb oherwydd nad oes gan sefydliadau yng Nghymru drefn briodol ar gyfer rhoi ymateb cyd-drefnus. Wrth i fentrau Cymreig newydd godi yn sgîl y cyfleoedd mwy ffurfiol, mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r posibiladau o greu ffurfiau newydd o gydweithredu yn rhyngwladol a rhwng rhanbarthau – cydweithredu a allai fod o fantais i'r ddwy ochr.

Pennod 5: Ymateb newydd cymru a strategaeth ar gyfer gweithredu

Fe fu ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn broses barhaus ers i'r chwe chenedl wreiddiol sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd yn dilyn Cytundeb Rhufain yn 1957. Fe ymunodd naw gwlad arall ers hynny. Awstria, y Ffindir a Sweden fu'r gwledydd diweddaraf i ymaelodi, yn 1995. Yn amlwg, fe fydd y cynigion presennol i gael 13 o aelodau newydd (y deg o Ganol Ewrop, gyda Chyprus, Malta a Thwrci) yn cael effeithiau sylweddol ar y perthnasau a'r adeileddau presennol – hyd yn oed os yw'r ehangu yn debygol o ddigwydd dros gyfnod o ddegawd o leiaf, a mwy na hynny bid sicr. Mater o "bryd" ac nid "os" yw hi bellach. Fe fydd yn creu heriau mawr nid yn unig i'r aelod-wladwriaethau, ond hefyd i'r rhanbarthau.

Fe fydd mater hunaniaeth ranbarthol o fewn cyd-destun sefydliadau'r UE yn thema barhaus am flynyddoedd i ddod.

Cyfleoedd a bygythiadau

Fe fydd raid i Gymru ddod i delerau â'r heriau hyn, o ran y bygythion posibl a hefyd y manteision posibl. Dyma fydd y prif fygythion tebygol:

- Bydd Cymru fwyfwy ar y cyrion yn ddaearyddol. Mae hyn yn anorfod. I gyfeiriad y dwyrain yn unig y gall yr UE ehangu'n sylweddol. Serch hynny, nid yw hyn o anghenraid yn golygu y bydd gan Gymru lai o ddylanwad. Mae sefyllfa Cymru yn hyn o beth yn fwy dibynnol ar lefel y gweithredu mewn materion Ewropeaidd, a pharodrwydd i gydweithredu'n rhyngwladol a rhynggranbarthol.

- Mwy o gystadleuaeth am fuddsoddiad uniongyrchol o dramor (FDI). Efallai ein bod yn rhoi gormod o sylw i hyn. Wrth i wledydd newydd ymuno gyda chostau is a adeileddau cyflog is mae'n eithaf posibl y bydd hyn yn apelio at FDI mudol. Fodd bynnag, mae yna ffactorau eraill sy'n gallu dylanwadu ar fuddsoddwyr. Pethau fel sefydlogrwydd gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol, yn ogystal ag ansawdd, dibynadwyedd a lefelau medrau'r darpar weithlu. Hefyd rhaid cofio am ansawdd y buddsoddi mewnol, o ran y swyddi sy'n cael eu creu, a hefyd yr ymrwymiad tymor hir. Gyda'r cyntaf, os yw Cymru yn gwirioneddol geisio bodloni gofynion ariannu Amcan 1, fe fydd yn gwneud ei gorau i sefydlu swyddi cynaladwy, medrau uchel, gyda chyflogau uchel. Swyddi gwahanol, o bosibl, i'r mathau o swyddi gwerth is, fel swyddi llinell gynhyrchu sydd weithiau'n cael eu creu gan FDI. Yn olaf, mae cwmnïau wedi adleoli o Gymru yn ddiweddar gan awgrymu bod y gystadleuaeth am fuddsoddiad o fewn yr UE presennol yn her yr un mor fawr â'r gystadleuaeth o du'r Gyddy, ac y gallai barhau i fod lawn cymaint.

Mae'r manteision a'r buddion posibl i Gymru yn llawer mwy amrywiol. Ond mae'n rhaid i ymateb Cymru i'r cyfleoedd fod yn gadarnhaol a gweithredol. Mae tair prif fantais mewn ymwneud â Gyddy Canol Ewrop.

Yn gyntaf, gellid dylanwadu ar adeiledd gweinyddiaethau a sefydliadau cyhoeddus newydd a sefydlu economïau marchnad newydd yn y Gyddy trwy gyfrwng rhaglenni a ariennir trwy'r UE. Byddai hynny'n creu'r posibilrwydd o ddatblygu perthnasau hwy eu parhad, a chynnal dylanwad, ar lefelau bwrdeistrefol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn y cyd-destun hwn, mae gan bron y cyfan o'r Gyddy ddiddordeb mawr ym mhrofiad Cymru o ddatganoli gwleidyddol, aildrefnu diwydiannau trwm diwydiannol (glo, dur, ac yn y blaen) ac amaethyddiaeth / yr economi wledig, yn ogystal â rheoli a gweithredu amrywiaeth eang o raglenni a mentrau ariannu yr UE. Mae'r arbenigedd hwn yn gynnyrch y gall sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru ei werthu.

Yn ail, trwy gael gwell rhyngweithio ar lefel sefydliadau ac wrth i'r farchnad sengl gael ei chyflwyno i

boblogaeth lawer mwy yn sgîl ehangu'r UE, fe fydd hyn yn creu cyfleoedd newydd i fusnesau Cymru, yn enwedig ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau SME Cymru. Mae'n hollbwysig bod cwmnïau Cymru yn hollol ymwybodol o'r cyfleoedd posibl a'u bod yn manteisio i'r eithaf ar y posibilïadau er mwyn i gwmnïau brodorol Cymru allu gwneud yn fawr o'r manteision economaidd. Fe allai'r ffocws hwn fod yn gyfrwng pellach i helpu SME Cymru fod yn rhyngwladol yn y farchnad fyd-eang. Byddai hefyd yn rhoi swyddogaeth ehangach i'r sector "asiantaeth fenter" yng Nghymru.

Yn drydydd, trwy ymwneud yn llawnach â'r GyddY, trwy fasnach a pherthnasau sefydliadol rhyngweithiol ac ar lefel gweinyddiaeth gyhoeddus, fe gesglid gwybodaeth am newidiadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o fewn y gwledydd a fyddai o fantais fawr i Gymru. Yn y cyd-destun hwn, mae bod yn fwy ymwybodol o natur y gweithgarwch economaidd o fewn y GyddY yn ffynhonnell wybodaeth bwysig o ran natur unrhyw newid economaidd, a'r heriau a'r cyfleoedd y gallai'r rhain eu creu i Gymru yn y tymor hir. Hefyd, fe fyddai cydweithredu agosach gyda'r GyddY a'u rhanbarthau yn golygu y gallai Cymru fod mewn gwell sefyllfa i ddylanwadu ar sefydliadau'r UE ar sawl mater polisi.

Dyma fanteision eraill i Gymru yn sgîl ymwneud mwy gweithredol:

- Ar gyfer sector cyhoeddus Cymru, mae mwy o gyfleoedd i staff gael profiad rhyngwladol ehangach trwy secondiadau neu leoliadau cyflogedig am wahanol gyfnodau. Fe fyddai profiad o'r fath yn hybu datblygiad proffesiynol a phersonol y swyddogion dan sylw, felly byddai gwell cymhelliad ymhlith y staff. Hyd yn oed o gofio bod diffyg cynhwysedd yn broblem sy'n cyfyngu'n sylweddol ar sector cyhoeddus Cymru, yn enwedig o fewn llywodraeth leol, mae amrywiaeth y cyngor proffesiynol a'r arbenigedd technegol sydd ei angen ar lawer o'r GyddY yn eang iawn, gan gwmpasu pob un o feysydd gweithgarwch presennol y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Ar y cyfan mae'r GyddY yn troi at Saesneg fel iaith busnes, masnach a chysylltiadau rhyngwladol. Mae gan y gwledydd a'r rhanbarthau hynny sy'n siarad Saesneg yn bennaf fantais ar aelod-wladwriaethau eraill.
- Fe fyddai sefydlu perthnasu agosach ar lefel sefydliadau a masnach ynddo'i hun hefyd yn rhoi llwyfan ar gyfer archwilio cyfleoedd masnachol a chyfleoedd buddsoddi i fuddsoddwyr yng Nghymru a thramor.

Tri maes ar gyfer gweithredu

Dan yr amgylchiadau a amlinellir uchod, y casgliad yw na all Cymru barhau i fod yn adweithiol i oblygiadau ehangu'r UE. Rhaid i Gymru fod yn fwy gweithredol, gan leihau'r bygythion a chynyddu'r manteision. Mae tri phrif faes gweithgarwch lle mae angen gweithredu'n strategol os yw buddiannau Cymru i symud ymlaen mewn dull cadarnhaol a gweithredol. Ac, o gofio maint y gystadleuaeth, mae angen gweithredu ar fyrder.

Un: sefydlu natur ymateb cymru

Yn gyntaf, mae angen sefydlu natur ymateb Cymru i'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â phroses ehangu'r UE. O gofio hyd a lled y cyfleoedd ar hyn o bryd, a'r cyfleoedd a ragwelir, yn ogystal â'r cyfyngiadau ar allu sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru i arwain, neu i ymwneud yn unigol a dethol, yna mae'n rhaid i unrhyw weithredu fod yn ymarferol, yn realistig a bod yn seiliedig ar egwyddor partneriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae gan y WEC ran fawr i'w chwarae, trwy ei haelodau, eu cleientiaid sy'n derbyn gwasanaethau, a chan ei chysylltiadau eang ym Mrwsel. Dylai'r WEC sicrhau bod y mater yn cael ei ddwyn ymlaen ar agenda ddomestig Cymru.

O fewn Cymru, mae angen sicrhau rhywun i "ganu clodydd" y syniad o sefydlu partneriaeth real fel ymateb newydd i'r cyfleoedd sy'n codi. Fe ddylai'r swyddogaeth hon weithredu fel catalydd o fewn Cymru, er mwyn sefydlu adeileddau priodol, yn hytrach nag arwain a rheoli fel y cyfryw.

Wrth edrych yn benodol ar gyfraniad Cymru tuag at brosiectau gefeillio yn y dyfodol rhwng aelod-wladwriaethau a'r GyddY, fe ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn fwy gweithredol. Yn amodol ar yr arbenigedd sydd ar gael, fe allai'r Cynulliad naill ai gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau gefeillio trwy'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO), sy'n cynrychioli buddiannau aelod-wladwriaeth y DG, neu ddarparu cefnogaeth i gynigion adrannau eraill gan y Llywodraeth Ganol / llywodraeth ddatganoledig oddi mewn i'r DG.

Eisoes cyfeiriwyd at y ffaith bod mwy o hyblygrwydd bellach yng nghyfansoddiad y timau arbenigol sy'n cael eu dwyn ynghyd wrth lunio ceisiadau am brosiectau gefeillio. Felly, dylai dewis dull o gydweithio mewn partneriaeth yng Nghymru ei gwneud hi'n bosibl i gynnwys y rhai â phrofiad mewn awdurdod lleol, profiad diweddar yn y sector cyhoeddus a/neu'r sector preifat / gwirfoddol yn "Nhîm Cymru", os bydd hyn yn rhoi'r arbenigedd priodol, o ran lefel a graddfa, yn ogystal â'r profiad priodol sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiect gefeillio dan sylw.

O gofio am raddfa a gwerth cynyddol y cytundebau ymgynghori sydd bellach ar gael trwy raglenni allanol yr UE, mae'n annhebygol bod unrhyw gwmnïau ymgynghorol unigol sy'n gweithio ar hyn o bryd yng Nghymru yn ddigon mawr i arwain ceisiadau am gytundebau neu gyrraedd statws Contractwyr Fframwaith. Felly mae'n debyg mai gwaith isgcontractio fydd y rhan fwyaf o'r cyfleoedd fydd ar gael. Wedi dweud hynny, oherwydd natur yr arbenigedd sydd yn sector ymgynghorol Cymru, fe allai cwmnïau ymgynghori neu unigolion penodol yn y maes wneud cyfraniad gwerthfawr ac ymarferol petai'r sector cyhoeddus / preifat yn gweithio ar y cyd i ymdrin â phrosiectau gefeillio fel "Tîm Cymru". Ni fyddai'r trefniant hwn yn cyfyngu ar allu ymgynghorwyr Cymru i weithio'n fasnachol y tu allan i faes diddordebau'r bartneriaeth Gymreig.

Yr un modd, fe ddylai cyrff sector cyhoeddus ymateb yn fwy hyblyg o ran cynnwys swyddogion o'r sector cyhoeddus yn y ceisiadau a arweinir gan gwmnïau ymgynghorol yng Nghymru. Yn amlwg,

byddai amodau ar eu cyfranogiad, ond nid oes reswm pam na ellid dod i gytundeb er mwyn hyrwyddo gweithgarwch a fydd o fudd i'r ddwy ochr yng nghyd-destun partneriaeth. Fe allai profiad diweddar y WDA fod o gymorth yn hyn o beth.

Dau: targedu daearyddol

Yn ail, mae angen cynyddu manteision y gweithgarwch Cymreig trwy dargedu daearyddol. Yn y cyd-destun hwn, mae angen edrych ar sefydlu a chynnal cydweithrediad rhwng rhanbarthau ac yn rhyngwladol, yn y tymor canolig / hir, rhwng Cymru a'r GyddY ar lefel genedlaethol a/neu ranbarthol. Hefyd rhaid ystyried y ffactorau canlynol.

Eithaf cyfyngedig yw'r cysylltiadau presennol â'r sector cyhoeddus. Maent yn tueddu i ddigwydd ar lefel leol. Fodd bynnag, fe ddylid edrych ar y cysylltiadau hyn er mwyn gweld a oes unrhyw sail i'w datblygu yn gysylltiadau ehangach a mwy parhaol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Fe allai cydweithrediad rhyngranbarthol / rhyngwladol fod yn seiliedig ar sicrhau perthnasau â'r rhanbarthau hynny yn y GyddY a/neu'r cenhedloedd llai hynny

- sydd â photensial i dyfu (h.y. y rhanbarthau blaengar "newydd" posibl mewn UE fwy);
- sydd ag adeileddau/ nodweddion economaidd (cymdeithasol a/neu amgylcheddol) tebyg neu sy'n berthnasol i Gymru; neu
- sy'n dangos agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at gydweithredu (h.y. sy'n barod i ymroi i gydweithredu, yn hytrach nag esgus "cefnogi" trefniant o'r fath).

Cyn mynd ati i dargedu, fe ellid gosod blaenoriaethau daearyddol ar gyfer cyfraniad Cymreig posibl mewn prosiectau gefeillio.

- Mae Papur Rhif 5 WEC, *Moving East*, yn awgrymu rhai meini prawf y gellid eu defnyddio i adnabod partneriaid rhanbarthol posibl o fewn y GyddY yng Nghanol Ewrop. Yn y cyd-destun hwn, mae profiad Tir Almaenig (Rhanbarth) Sacsoni-Anhalt yn ddefnyddiol – mae medr, parodrwydd a gallu partneriaid rhanbarthol posibl i gydweithredu er lles y ddwy ochr yn gallu bod yn bwysicach nag unrhyw debygrwydd neu ddiddordebau sydd gan ranbarthau penodol.
- Mae'r FCO eisoes wedi nodi y gallai unrhyw rai o Wledydd y Baltig fod yn bartneriaid priodol i Gymru o ran prosiectau gefeillio. Mae yna nifer o nodweddion tebyg a allai fod o gymorth wrth weithio ar y cyd, yn ogystal â pharodrwydd Sweden a Denmarc i weithio gyda phartneriaid yn y DG ar fentrau yng Ngwledydd y Baltig.
- Hefyd, mae cynnydd yn cael ei wneud gyda sefydlu Awdurdodau Rhanbarthol yng

Ngwlad Pwyl. Fe allai hyn roi cyfleoedd i "adeiladu sefydliadau", gefeillio a phrosiectau ariannu eraill y UE yn y wlad honno. Mae nifer o gyrff yn y sector cyhoeddus ac ymgynghorwyr yn y sector preifat wedi sefydlu cysylltiadau a allai elwa pe ceid ymdrechion mwy unol a chyd-drefnus.

Yn olaf, fe ddylid cloriannu'r gweithgarwch hwn o fewn cyd-destun perthnasau rhynggranbarthol ehangach rhwng Cymru a rhanbarthau aelod-wladwriaethau presennol eraill. O ran y GyddY, mae angen archwilio posibiliadau sefydlu perthnasau o'r fath gyda llywodraethau cenedlaethol yn y GyddY llai. Er enghraifft, mae poblogaethau Estonia, Latfia a Slofenia i gyd yn llai na phoblogaeth Cymru, mae poblogaeth Lithwania ychydig yn uwch, a phoblogaeth Slofacia lai na dwywaith maint poblogaeth Cymru – gweler Atodiad A. O fewn y GyddY mwy, mae Gwlad Pwyl, sydd â chyfanswm y boblogaeth dros 38 miliwn, yn y broses o sefydlu Awdurdodau Rhanbarthol (Foifodiaethau). Mae poblogaethau'r rheini yn amrywio o ychydig dros un miliwn i dros bum miliwn – gweler Atodiad B. Yn bwysicach, rhaid asesu'r cyfleoedd ehangach a grëir trwy gydweithio'n rhynggranbarthol yn y tymor hir. Er enghraifft, mae rhanbarthau yng Ngwlad Pwyl sydd â nodweddion hynod debyg i brofiad economaidd Cymru yn y gorffennol, a rhanbarthau eraill sydd â'r potensial i weld newid economaidd mwy dynamig yn y dyfodol (rhanbarthau blaengar posibl).

Tri: Blaenoriaethu sectorau gweithgarwch

Yn drydydd, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gellid rhoi peth ystyriaeth i ba sectorau gweithgarwch a ddylai gael blaenoriaeth o ran prosiectau a gwaith cytundeb o fewn y GyddY. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ymddangos bod llawer iawn o waith cytundeb a gyflawnwyd gan ymgynghorwyr o Gymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar ddatblygu / cymorth i fusnesau SME, sefydlu arferion economi farchnad ym maes datblygiad economaidd, a gweithredu gwaith seilwaith amgylcheddol. Ar yr un pryd, fe fu symudiad o fewn y prif raglenni ariannu tuag at adeiladu sefydliadau a buddsoddiad sy'n cyd-fynd â mabwysiadu'r acquis, yn enwedig ym meysydd cludiant a'r amgylchedd. Fe gyfeiriwyd eisoes yn yr adroddiad hwn at yr agweddau hynny ar brofiad Cymru, ym meysydd datganoli, ad-drefnu economaidd a gweithredu ystod eang o raglenni ariannu yr UE, sy'n apelio at fuddiannau'r sector cyhoeddus a phreifat yn y GyddY.

Adeiledd trefniadol: dewisiadau

I grynhoi, mae angen ystyried a phenderfynu ar yr adeiledd(au) trefniadol ar gyfer bwrw ymlaen ag ymateb Cymru ar sail partneriaeth, a hynny ar frys. Pa fodel bynnag a fabwysiedir, rhaid gwneud yn fawr o gyfraniad cadarnhaol a gweithredol y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol os dymunwn wneud y mwyaf o'r buddiannau i Gymru. Ar hyn o bryd, dyma'r prif ddewisiadau trefniadol:

- Dewis 1: Sefydlu catalydd pwrpasol o fewn Cymru i ddwyn ynghyd wahanol rannau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd wedi mynegi diddordeb a/neu sydd â hanes o weithio yng Ngwledydd CDE. Yn y cyd-destun hwn, fe fyddai hi'n hynod fanteisiol ffurfio "Rhwydwaith Ehangu Ewropeaidd Cymru" (WEEN) anffurfiol er mwyn casglu

safbwyntiau ar unwaith, ac yn sylfaen ymgynghorol dros dro, ar gyfer y catalydd. Canolbwynt y gweithgarwch fyddai ymdriniaeth gynhwysol, ar y cyd yn edrych ar y rhaglen ariannu yn ogystal â'r cyfleoedd i gydweithio'n rhyngwladol / rhynggranbarthol a allai fodoli rhwng Cymru a'r llywodraethau cenedlaethol / sefydliadau rhanbarthol yn y Gyddy. Ar yr un pryd fe fyddai angen ailddyrannu adnoddau staffio o fewn y WEC i ddarparu gwasanaethau cyflenwol o Frwsel. Fe ellid gweithredu'r trefniant hwn ar ffurf prosiect peilot am gyfnod o un neu ddwy flynedd, am gost ychwanegol o hyd at £30,000 y flwyddyn.

- Dewis 2: Swyddogaethau tebyg i Ddewis 1 uchod, ond yn cael eu cyflawni gan sefydliad ymgynghori sydd eisoes wedi'i sefydlu yng Nghymru. Byddai'n gweithio ar y cyd â phartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus / preifat. Go brin y byddai hyn yn rhatach na Dewis 1. Efallai y byddai ganddo fantais o ran cael mynediad at ehangder profiad yn gysylltiedig â rhaglenni presennol yr UE yng Ngwledydd CDE. Eto, gallai fod yn anfanteisiol petai buddiannau sefydliadau ymgynghorol yn y sector preifat yn rhanedig o'r cychwyn cyntaf.

- Dewis 3: Sefydlu tîm neu uned fechan (dau neu dri gweithiwr) o fewn un o brif gyrff cyhoeddus Cymru (e.e. y Cynulliad Cenedlaethol neu'r WDA) i weithredu fel corff cyd-drefnu ar gyfer bwrw ymlaen â mentrau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn perthynas â Gyddy. Mae bron yn anorfod y byddai hyn yn canolbwyntio i ddechrau ar gyfleoedd yn y sector cyhoeddus, ond dros gyfnod o amser fe allai fynd i'r afael â chyfleoedd ar gyfer y sectorau eraill. Byddai cost o hyd at £75,000 y flwyddyn yn debygol.

- Dewis 4: Mynd ati'n ffurfiol i sefydlu cwmni, wedi'i noddi a'i warantu am gyfnod penodol, gan gorff amlwg yn sector cyhoeddus Cymru, megis y WDA. Fe fyddai'r cwmni hwn yn arwain a gwasanaethu mentrau ar y cyd o'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'n ymddangos y byddai cyfanswm cost sefydlu a gwarantu menter o'r fath yn rhyw £300,000 i £500,000. Byddai'n talu amdano'i hun, petai'n llwyddiannus, o fewn tair i bum mlynedd. Fe fyddai'n canolbwyntio ar ennill cytundebau a gwasanaethu'r sector SME Cymru sy'n ymwneud â'r maes gweithgarwch hwn (sef ymgynghorwyr o Gymru yn bennaf), ond fe allai ddatblygu cyfleoedd hefyd yn gysylltiedig â'r rhaglenni gefeillio, gyda chydweithrediad y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae i bob dewis fanteision ac anfanteision. O ran bod yn ochelgar a chost-effeithiol, byddai'n ymddangos mai 1 a 2 yw'r mwyaf priodol. Mantais arall Dewis 1 fyddai gallu ffurfio partneriaeth mewn dull mwy gwrthrychol, gyda mantais cael perthnasau agosach a gweithredu mwy integredig gyda'r WEC. Gan gymryd y gallai Dewis 1 fod yn rhan o broses a allai arwain at drefniadau tebyg i'r rhai a amlinellir yn Newisiadau 3 a 4 dros gyfnod o hyd at ddwy flynedd, fe fyddai'n ymddangos mai dyma'r ffurf fwyaf priodol o weithredu'n gadarnhaol ar hyn o bryd. At ei gilydd mae yna dri pheth a fydd yn angenrheidiol o ran yr adeiledd trefniadol a ddewisir.

Y cyntaf yw fod yr adeiledd a sefydlir yn cael ei neilltuo ar gyfer y dasg benodol, ac nad yw'r dasg yn gyfrifoldeb sy'n "ychwanegol" at swydd neu swyddogaeth sy'n bodoli eisoes.

Yn ail, fe ddylid cael ymrwymiad pendant gan y Cynulliad Cenedlaethol, corff uniongyrchol gyfrifol megis y WDA, neu'r WLGA i "ganu clodydd" y fenter uchel ei phroffil, hollbwysig hon a'i harwain ar y cychwyn, gyda chefnogaeth y bartneriaeth ehangach rhwng y sectorau cyhoeddus / preifat / gwirfoddol.

Yn drydydd, fe fyddai'n rhaid sicrhau arian o ffynonellau cyhoeddus i dalu costau'r fenter. Mae'n hollbwysig cael ymrwymiad y bydd rhyw lefel o wariant yn y flwyddyn ariannol bresennol (2000-2001), gydag ymroddiad parhaus, mwy sylweddol yn 2001-2002.

Pennod 6: Argymhellion

Gwneir yr argymhellion canlynol:

- bod yr adroddiad hwn yn cael ei dderbyn fel sail dros sefydlu strategaeth ar y cyd ar gyfer Cymru mewn ymateb i'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ehangu arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd;
- bod egwyddor partneriaeth yn cael ei derbyn fel sail ar gyfer bwrw ymlaen ag ymateb Cymru i'r cyfleoedd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, gydag arweiniad penodol yn dod gan y Cynulliad Cenedlaethol, un o'r cyrff sy'n uniongyrchol atebol iddo, megis y WDA, neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- bod Dewis 1 yr adeileddau trefniadol ar gyfer bwrw ymlaen ag ymateb Cymru yn cael ei gymeradwyo, gyda'r adeiledd yn cael ei gysegru'n benodol i'r tasgau angenrheidiol. Fe amlinellir manylion trefniadau posibl ar gyfer y cynnig hwn yn Atodiad C. Yn y cyd-destun hwn, mae angen nodi ymrwymiad ariannu gan ffynhonnell amlwg yn y sector cyhoeddus er mwyn ariannu'r fenter arfaethedig;
- bod gweithredu'n digwydd ar y cyd ag aelodau'r WEC er mwyn dechrau nodi unrhyw dargedau daearyddol a thargedau mewn sectorau penodol ar gyfer menter arfaethedig Cymru.

Atodiad A: gwledydd canol ewrop sy'n ymgeisio – prif nodweddion

Gwlad	Poblogaeth	GDP y pen	Cyfradd Diweithdra (1996/97)*
	miliynau (1995/96)*	(% o g'taledd yr UE 1997/98)+	
Gwlad Pwyl	38.609	39	12.4
Rwmania	22.608	27	8.0
Y Weriniaeth Tsiecaidd	10.321	60	3.4
Hwngari	10.212	49	9.2
Bwlgaria	8.340	24	13.7
Slofacia	5.368	46	10.9
Lithwania	3.707	31	6.2
Latfia	2.479	27	18.3
Slofenia	1.990	68	7.3
Estonia	1.476	36	7.6

Ffynhonnell wybodaeth:

* *EC Guide: EU Assistance for Regional Development.*

+ Cyflwyniad gan Paul Green (Swyddfa'r Cabinet) i Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd, 12 Mai 2000.

Atodiad B: Gwlad Pwyl – Awdurdodau Rhanbarthol

Foifodiaeth (Awdurdod rhanbarthol)	Poblogaeth		Cyfran GDP	Cyfradd
	mewn miliynau (%)		(%)	diweithdra (%)
Dolnoslaskie	2.985	(7.6)	7.3	12.3
Kujawsko-Pomorskie	2.098	(5.4)	4.6	13.6
Lubelskie	2.242	(5.7)	4.2	9.6
Lubuskie	1.020	(2.6)	2.3	12.4
Lodzkie	2.673	(6.8)	6.5	11.0
Malopolskie	3.207	(8.2)	7.4	7.1
Mazowieckie	5.065	(13.0)	19.7	7.3
Opolskie	1.091	(2.8)	2.4	9.8
Podkarpackie	2.117	(5.4)	4.1	11.7
Podlaskie	1.224	(3.1)	2.3	9.5
Pomorskie	2.179	(5.6)	5.6	10.4
Slaskie	4.894	(12.5)	14.6	6.2
Swietokrzyskie	1.328	(3.4)	2.4	11.9
Warminsko-Mazurskie	1.460	(3.7)	2.9	18.9
Wielkopolskie	3.346	(8.6)	9.3	7.8
Zachodniopomorskie	1.730	(4.4)	4.3	13.1
Cyfansymiau	38.686		100.0	12.1

(c'taledd. 1996/7)

Ffynhonnell wybodaeth:

Fe ddaeth yr holl wybodaeth o *A New Poland for New Challenges* a gyhoeddwyd gan Lys Canghaior Prif Weinidog Gweriniaeth Gwlad Pwyl (Rhagfyr 1998). Mae'r ffigur cyfartalog ar gyfer diweithdra'n dod o gyflwyniad a roddwyd gan Paul Green (Swyddfa'r Cabinet) i Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd, 12 Mai 2000.

Atodiad C: Adeiledd trefniadol arfaethedig (dewis 1) ar gyfer ymateb newydd Cymru

Fe fyddai'n fanteisiol i fenter o'r fath dderbyn cefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol, y WDA, a'r WLGA, yn nhermau'r prif fuddiannau yn y sector cyhoeddus o fewn Cymru. Mae'n ddiamau y byddai gan bob corff amcanion penodol wrth addo ei gefnogaeth. Hefyd, mae cwmnïau'r sector preifat yn debygol o geisio buddiannau penodol wrth fynd ati i sefydlu partneriaethau fel yr awgrymir. Mae trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr o'r sector hwnnw yn dangos y byddai cymorth gyda llif arian, marchnata cyn y prosiect / marchnata'r cytundeb a sefydlu delwedd frandio amlwg, Gymreig ar gyfer unrhyw fenter newydd yn flaenoriaeth uchel.

Fe fyddai'r adeiledd trefniadol a awgrymir dan Ddewis 1 yn elwa o gael gwasanaeth mwy penodol gan y WEC sydd newydd ei sefydlu ac a gafodd ei ad-drefnu'n ddiweddar. Wedi aildrefnu cyfrifoldebau'r staff, mae'n ymddangos y gall y WEC gyflawni'r swyddogaeth a'r gwasanaethau angenrheidiol ym Mrwsel, ac y gall ddatblygu swyddogaeth gyswllt gref gyda chatalydd pwrpasol yng Nghymru er mwyn dwyn ynghyd fuddiannau Cymreig, a nodi targedau daearyddol a sectorau penodol ar y cyd.

Fe allai'r "catalydd" yng Nghymru fod naill ai'n benodiad rhan amser neu amser llawn gydag un o brif aelodau sector cyhoeddus y WEC, naill ai o fewn adeiledd staffio'r corff hwnnw, neu'n cael ei gyflogi ar gytundeb ymgynghori. Petai angen, fe allai'r penodiad yng Nghymru fod trwy'r WEC. Fe fyddai hyn yn sicr yn golygu y byddai aelodau ehangach y WEC, a'r cleientiaid a wasanaethir ganddo, yn cael mwy o deimlad o "berchenogaeth" ar y cyd ar y gydbartneriaeth a gynigir. Yn amlwg, mae nifer o amrywiadau'n bosibl a rhaid rhoi sylw iddynt ar fyrder.

Yn gyffredinol iawn, cost sefydlu catalydd pwrpasol fyddai hyd at £30,000 y flwyddyn, gan ddibynnu ar natur benodol y penodiad. Dyma fanylion y costau:

- cyfanswm cost y cyflog / ffi ar sail amser: tua £24,000 llawn amser, gyda llai o brofiad / arbenigedd, neu £18,000 rhan amser, cyfwerth â 2.5 diwrnod yr wythnos cyfwerth, gyda phrofiad / arbenigedd uwch;

- costau swyddfa / gweinyddu: gellid cadw'r rhain yn isel (£2,500) petai aelod o'r "bartneriaeth" / rhwydwaith (cyhoeddus neu breifat) yn barod i ddarparu ystafell, neu ffigur uwch (£7,500) gyda chostau ystafell;

· teithio a chynhaliaeth tua £2,500–£3,500.

At ei gilydd, y dewis gorau fyddai arbenigwr rhan amser am £18,000, gydag isafswm costau swyddfa (£2,500-£3,000), a lefel resymol o deithio a chynhaliaeth (£2,500-£3,000), gan greu uchafswm o £24,000.

Mae Cymru eisoes mewn sefyllfa gymharol dlawd, o'i chymharu â rhanbarthau eraill yn yr UE, o ran yr ymatebion gweithredol i'r cyfleoedd sy'n ymwneud â'r broses ehangu. Felly mae angen penderfynu ar frys sut i fwrw ymlaen ag unrhyw ymateb newydd gan Gymru, gyda golwg ar lansio a sefydlu menter newydd cyn diwedd 2000.